# Newyddion a gwybodaeth leol ar radio masnachol analog

## Gweithredu Rhan 5 o Ddeddf Cyfryngau 2024

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 1 Gorffennaf 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 22 Medi 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon, ewch i [ofcom.org.uk](ofcom.org.uk)

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg .... 3

2. Cefndir a chyd-destun .... 5

3. Ein cynigion .... 11

## Atodiad

A1. Asesiad cost y cynigion .... 25

A2. Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg .... 34

A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn .... 37

A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom .... 40

A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad .... 41

A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad .... 43

# 1. Trosolwg

1.1 Mae newyddion a gwybodaeth leol yn chwarae rhan bwysig mewn cymdeithas. Mae mynediad at y cynnwys hwn yn helpu i gefnogi democratiaeth leol a sicrhau bod cynghorau a sefydliadau lleol eraill yn cael eu dal i gyfrif. Mae hefyd yn helpu cymunedau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a gwybodaeth leol, a all maes o law helpu i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ac ymgysylltiad cymunedol.

1.2 Mae Deddf Cyfryngau 2024 ('y Ddeddf') wedi newid pwerau a dyletswyddau statudol Ofcom o ran rheoleiddio radio masnachol. Mae llawer o'r newidiadau hyn yn ddadreoleiddio. Ochr yn ochr â'r newidiadau dadreoleiddio hyn, mae'r Ddeddf hefyd yn diogelu'r ddarpariaeth newyddion a gwybodaeth leol drwy gyflwyno gofynion newydd ynghylch darlledu newyddion a gwybodaeth leol yn rheolaidd ar orsafoedd radio masnachol analog lleol.

1.3 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi sut rydym yn bwriadu gweithredu'r fframwaith statudol newydd sy'n ymwneud â darparu newyddion a gwybodaeth leol ar orsafoedd radio masnachol analog lleol.

1.4 Rhaid i ni gynnwys amodau rydym ni'n credu sy'n briodol yn nhrwyddedau'r gorsafoedd hyn, sy'n mynnu eu bod yn darlledu newyddion a gwybodaeth leol yn rheolaidd, gan gynnwys newyddion sy'n cael ei "gasglu'n lleol", ond mae gennym ddisgresiwn i beidio â chynnwys amodau o'r fath os ydyn ni'n credu ei bod hi'n briodol peidio â gwneud hynny. Mae'n rhaid i ni hefyd gyhoeddi canllawiau ynghylch sut rydym yn credu y gallai trwyddedeion weithredu'n unol â'r amodau trwydded newydd hyn.

1.5 Yn Adran 2 y ddogfen hon, rydym yn crynhoi'r fframwaith cyfreithiol perthnasol ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir, gan gynnwys gwerth newyddion a gwybodaeth leol. Mae Adran 3 wedyn yn nodi ein cynigion polisi yn llawn, gan gynnwys yr amodau penodol rydym yn cynnig eu cynnwys mewn trwyddedau, a'r camau nesaf. Mae copi o'n canllawiau arfaethedig ar sut gall trwyddedeion weithredu'n unol â'r amodau hyn ar gael yma.

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

- Rhaid i bob gorsaf radio fasnachol analog leol, ar wahân i'r rheini sydd â throsiant isel iawn, ddarparu **newyddion lleol** o leiaf bob awr yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos (06.00-19.00) ac o leiaf dair gwaith yn ystod oriau brig ar benwythnosau (07.00-12.00).
- Rhaid i'r newyddion lleol gynnwys rhywfaint o newyddion sydd wedi cael ei **gasglu'n lleol**, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i newyddiadurwyr fod yn bresennol yn yr ardaloedd perthnasol. Fodd bynnag, nid ydym yn cynnig pennu faint o newyddion lleol y mae'n rhaid ei gasglu'n lleol na pha mor aml y dylid ei ddarlledu.
- Dim ond tair gwaith y bydd yn rhaid i orsafoedd sydd â throsiant isel iawn ddarlledu newyddion lleol yn ystod pob un o'r cyfnodau canlynol: oriau brig boreau yn ystod yr wythnos (06.00-10.00), oriau brig prynhawniau yn ystod yr wythnos (16.00-19.00) ac oriau brig penwythnosau (07.00-12.00). Ni fydd angen iddynt gynnwys newyddion sydd wedi cael ei gasglu'n lleol.
- Rhaid i bob gorsaf ddarlledu **gwybodaeth leol** yn rheolaidd yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau (06.00-19.00).

- Bydd yn rhaid i drwyddedeion fod yn dryloyw ynghylch sut maent yn bodloni amodau eu trwydded drwy barhau i ddefnyddio'r **Ffeil Gyhoeddus**.

# 2. Cefndir a chyd-destun

## Cyflwyniad

2.1 Roedd Rhan 5 o'r Ddeddf wedi gwneud newidiadau sylweddol i bwerau a dyletswyddau Ofcom ynglŷn â gwasanaethau radio masnachol FM ac AM trwyddedig. Ar gyfer gorsafoedd radio masnachol lleol yn benodol, roedd yn dileu'r ddyletswydd ar Ofcom i sicrhau 'cymeriad gwasanaeth' pob gwasanaeth (gan gynnwys y mathau o gerddoriaeth maen nhw'n eu chwarae), yn ogystal â dyletswydd Ofcom i sicrhau y darlledir deunyddiau lleol, gan gynnwys rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol. Mae'r newidiadau hyn eisoes wedi cael eu rhoi ar waith gan Ofcom drwy amrywiadau i 'Fformat' trwyddedau gwasanaeth radio masnachol analog lleol.

2.2 Roedd y Llywodraeth a'r Senedd hefyd yn cydnabod yn y Ddeddf y rôl bwysig mae gorsafoedd radio lleol yn ei chwarae o ran darparu newyddion a gwybodaeth leol i wrandawyr. Yn benodol, cyflwynodd y Ddeddf ddyletswydd newydd ar Ofcom i gynnwys amodau mewn trwyddedau y mae'n credu sy'n briodol er mwyn mynnu bod newyddion a gwybodaeth leol, gan gynnwys newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol, yn cael eu darlledu'n rheolaidd ar orsafoedd radio lleol.

2.3 Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar sut rydym yn bwriadu gweithredu'r gofynion newydd hyn ar gyfer gorsafoedd radio masnachol analog lleol. Yn benodol, rydym yn ymgynghori ar amodau trwydded newydd sy'n ymwneud â darparu:

a) Newyddion lleol,
b) Newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol, a
c) Gwybodaeth leol

2.4 Rydym hefyd yn ymgynghori ar ganllawiau newydd arfaethedig sy'n nodi sut rydym yn credu y gallai trwyddedeion weithredu'n unol â'r amodau trwydded newydd arfaethedig hyn, ac amod trwydded diwygiedig arfaethedig ar y 'Ffeil Gyhoeddus'.

## Y fframwaith cyfreithiol

2.5 Yn yr adran hon rydym yn egluro cefndir y rhan hon o Ran 5 o'r Ddeddf a'r prif newidiadau y mae wedi'u gwneud i bwerau a dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â gorsafoedd radio masnachol analog lleol.

2.6 Newidiodd y Ddeddf, drwy ddiweddaru Deddf Darlledu 1990 a Deddf Cyfathrebiadau 2003, sut mae'n rhaid i Ofcom reoleiddio radio masnachol. Fel y nodwyd uchod, roedd llawer o'r newidiadau hyn yn ddadreoleiddio, ac yn adlewyrchu'r bwriadau a nodwyd yn natganiad polisi'r Llywodraeth ym mis Rhagfyr 2017. Roedd y Papur Gwyn a ragflaenodd y Ddeddf Cyfryngau hefyd yn nodi bwriad y Llywodraeth ar y pryd i "dynnu hen ofynion cymeriad gwasanaeth fel fformatau cerddoriaeth a diwygio'r rheolau presennol ynghylch lle mae rhaglenni radio lleol yn cael eu cynhyrchu, gan gryfhau'r gofynion ar gyfer ei gwasanaethau newyddion a gwybodaeth leol hanfodol ar yr un pryd".

## Fframwaith rheoleiddio blaenorol

2.7 Cyn i'r Ddeddf ddod i rym, roedd radio masnachol analog lleol yn cael ei reoleiddio o dan fframwaith trwyddedu a sefydlwyd 35 mlynedd yn ôl gan Ddeddf Darlledu 1990. O dan y fframwaith hwn, roedd yn rhaid i Ofcom wneud y canlynol:

a) Sicrhau cymeriad gwasanaeth lleol a gynigir gan drwyddedai wrth wneud cais am ei drwydded drwy gynnwys amodau y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol yn y drwydded (adran 106 o Ddeddf Darlledu 1990);

a) Cyflawni ein swyddogaethau ynglŷn â darlledu sain lleol yn y ffordd orau o sicrhau bod rhaglenni sy'n cynnwys deunydd lleol yn cael eu darlledu, a bod cyfran addas o'r rhaglenni hynny'n cael eu gwneud yn lleol. Roedd deunydd lleol yn cynnwys newyddion a gwybodaeth leol (adran 314 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003).

2.8 Sicrhawyd y gofynion statudol hyn drwy gynnwys 'Fformat' ym mhob trwydded analog leol. Roedd hyn yn nodi, ymysg pethau eraill, pa mor aml roedd yn rhaid i orsaf ddarlledu newyddion lleol, faint o raglenni lleol roedd yn rhaid i orsaf eu darlledu, a gofyniad cyffredinol i fod yn lleol o ran cymeriad.

2.9 Mewn llawer o drwyddedau, roedd pa mor aml roedd yn rhaid i orsaf ddarlledu newyddion lleol yn gysylltiedig â faint o raglenni wedi'u gwneud yn lleol roedd yn eu darparu. Roedd yn rhaid i orsafoedd a oedd yn darlledu mwy o raglenni wedi'u gwneud yn lleol ddarlledu newyddion lleol yn llai aml. Nid oedd y gofynion hyn yn berthnasol i bob gorsaf. Roedd gan rai drefniadau newyddion lleol pwrpasol yn deillio o gynigion a wnaed pan gafodd y cais am y drwydded ei wneud, ac roedd rhai gorsafoedd wedi'u hesemptio, fel y caniatawyd gan y statud.

2.10 Roedd yn rhaid i'r rhan fwyaf o orsafoedd lleol ddarparu gwasanaeth sy'n berthnasol yn lleol, ac roedd ein canllawiau'n tynnu sylw at fathau o gynnwys (e.e. newyddion teithio, tywydd) a allai helpu gorsaf i ddarparu gwasanaeth o'r fath, ond nid oeddem wedi nodi pa mor rheolaidd y dylid darlledu gwybodaeth leol.

2.11 Ochr yn ochr â'r 'Fformat', roedd Ofcom hefyd yn mynnu bod trwyddedeion yn cynnal ac yn cyhoeddi 'Ffeil Gyhoeddus', sy'n rhoi dealltwriaeth (i Ofcom a gwrandawyr) o allbwn pob trwyddedai a sut mae'n cydymffurfio â'i ofynion o ran lleolrwydd a chymeriad y gwasanaeth.

## Fframwaith rheoleiddio o dan y Ddeddf Cyfryngau

2.12 Yn y 35 mlynedd ers sefydlu'r fframwaith statudol a nodir uchod, bu cynnydd enfawr yn y dewis i wrandawyr, yn bennaf oherwydd datblygu llwyfannau newydd fel DAB ac ar-lein. Mae hyn wedi galluogi cannoedd o orsafoedd radio newydd i lansio gan wasanaethu amrywiaeth eang o chwaethau a diddordebau.

2.13 Mae hwn yn gyd-destun pwysig i'r Ddeddf, sydd wedi:

b) Dileu dyletswyddau Ofcom i sicrhau cymeriad gwasanaeth lleol a darlledu deunydd lleol (gan gynnwys rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol). Rydym eisoes wedi dileu amodau trwydded sy'n ymwneud â chymeriad y gwasanaeth a rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol. Fodd bynnag, mae amodau trwydded a osodwyd o dan y fframwaith

statudol blaenorol sy’n ymwneud â newyddion lleol wedi cael eu cadw, gan ddisgwyl am ganlyniad y broses ymgynghori hon;[1] ac

c) Adran ddiwygiedig 314(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 bod Ofcom yn cynnwys amodau trwydded o’r fath mewn trwyddedau gwasanaeth darlledu sain lleol sy’n briodol yn ein barn ni er mwyn mynnu bod y gwasanaethau hynny’n cynnwys rhaglenni sy’n cynnwys newyddion a gwybodaeth leol ac yn eu darlledu’n rheolaidd; a mynnu bod newyddion lleol yn cynnwys newyddion sy’n cael ei gasglu’n lleol.

2.14 Fodd bynnag, mae adran 314(1A) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn darparu nad yw’r gofyniad yn adran 314(1) yn berthnasol yn achos gwasanaeth darlledu sain lleol penodol os yw Ofcom yn credu ei bod yn briodol iddo beidio â bod yn berthnasol yn yr achos hwnnw.

2.15 Mae Adran 314(7) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn diffinio ‘newyddion a gwybodaeth leol’ fel newyddion a gwybodaeth sydd o ddiddordeb penodol:

a) i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r ardal leol y darperir y gwasanaeth ar ei chyfer;
b) i bobl sy'n byw neu'n gweithio mewn rhan o'r ardal neu'r ardal leol honno; neu
c) i gymunedau penodol sy’n byw neu’n gweithio yn yr ardal neu’r ardal leol honno neu ran ohoni.

2.16 Mae adran 314(8) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn darparu bod cyfeiriadau at bersonau sy’n byw neu’n gweithio mewn ardal neu ardal leol yn cynnwys cyfeiriadau at bersonau sy’n cael addysg neu hyfforddiant yn yr ardal neu’r ardal leol honno.

2.17 Mae’r un adran yn diffinio ‘wedi’i gasglu’n lleol’ fel a ganlyn:

d) newyddion a gasglwyd yn ardal ddarpariaeth gwasanaeth amlblecs radio lleol sydd i raddau helaeth yn cynnwys ardal ddarpariaeth y gwasanaeth darlledu sain lleol gan bobl sy’n casglu newyddion yn ystod cyflogaeth neu fusnes; neu
e) os nad oes gwasanaeth amlblecs radio lleol gydag ardal ddarpariaeth o’r fath, newyddion sy’n cael ei gasglu yn yr ardal neu’r ardal leol lle mae’r gwasanaeth darlledu sain lleol yn cael ei ddarparu gan bobl sy’n casglu newyddion yn ystod cyflogaeth neu fusnes.

2.18 Mae Adran 314(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn:

f) cyhoeddi canllawiau ynghylch sut rydym yn credu y gall darparwyr gwasanaethau darlledu sain lleol weithredu’n unol â’r amodau yn eu trwyddedau sy’n ymwneud â newyddion a gwybodaeth leol, gan gynnwys newyddion sy’n cael ei gasglu’n lleol; ac
g) yn rhoi sylw i’r canllawiau hynny wrth gyflawni ein swyddogaethau o dan adran 314(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

2.19 Caiff Ofcom ddiwygio ei ganllawiau o bryd i’w gilydd ac mae’n rhaid iddo, cyn cyhoeddi ei ganllawiau (neu unrhyw ddiwygiad iddynt), ymgynghori â phobl benodol yn unol ag adran 314(5) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

[1] Yn benodol, mae amodau trwydded presennol trwyddedeion mewn perthynas â newyddion lleol wedi cael eu cadw yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau Deddf Cyfryngau 2024 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2024. Mae hyn yn darparu y bydd amodau presennol sy’n ymwneud â newyddion lleol yn cael eu trin fel petaent wedi cael eu gosod o dan adran 314(1)(a) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfryngau 2024).

## Ein dyletswyddau cyffredinol

2.20 Yn ogystal â’r dyletswyddau statudol penodol sydd wedi’u crynhoi uchod, mae gan Ofcom amrywiaeth o ddyletswyddau cyffredinol sy’n berthnasol i arfer ei swyddogaethau yn y maes hwn. Yn enwedig, prif ddyletswydd Ofcom o ran cyflawni ei swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.

*2.21* Mae gan Ofcom hefyd ddyletswydd cyffredinol i (i) sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau teledu ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda’i gilydd) o ansawdd uchel ac wedi’u cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau, a (ii) sicrhau y cynhelir lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol. Rydym yn cyflawni ein dyletswyddau drwy ddyfarnu trwyddedau darlledu sy’n cynnwys amodau trwydded sydd, yn ein barn ni, yn briodol yn unol â'n dyletswyddau.

2.22 Mae’n rhaid i Ofcom roi sylw i gyflawni ei ddyletswyddau o ran yr egwyddorion sy’n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi’u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu ac unrhyw egwyddorion eraill sy’n ymddangos i Ofcom fel rhai sy’n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.

2.23 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 hefyd yn mynnu bod yn rhaid i Ofcom ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy’n sicrhau:

a) bod camau rheoleiddiol yn cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen; a
b) bod unrhyw gamau a gymerir yn rhai cymesur.

2.24 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon yn cydnabod bod arloesedd a chystadleuaeth ymysg y ffactorau sy’n sbarduno twf economaidd.

## Asesiadau Effaith

2.25 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai’n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu’r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae asesiadau effaith yn ein helpu i ddeall ac i asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maen nhw hefyd yn ein helpu i esbonio’r penderfyniadau polisi rydym wedi’u gwneud a pham ein bod yn credu mai’r penderfyniadau hynny sy’n cyflawni ein dyletswyddau a’n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy’n tarfu leiaf.

2.26 Fel mater o bolisi, mae Ofcom wedi ymrwymo i gynnal a chyhoeddi asesiadau effaith mewn perthynas â’r rhan fwyaf o’n penderfyniadau polisi, er y bydd ffurf yr asesiad hwnnw’n dibynnu ar natur benodol y cynnig. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.

2.27 Mae gennym hefyd rwymedigaethau statudol sy’n mynnu ein bod yn ystyried yr effeithiau ar grwpiau penodol o bobl wrth lunio cynigion polisi. Sef:

c) ein dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (“y Ddeddf Cydraddoldeb”) ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (“Deddf Gogledd Iwerddon”), gan gynnwys yr effeithiau posibl ar y grwpiau o bobl y nodir yn yr adrannau hynny bod ganddynt nodweddion gwarchodedig;

d) yr effeithiau posibl ar anghenion a buddiannau'r grwpiau o bobl a nodir yn adran 3(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae hyn yn cynnwys anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rhai sydd ar incwm isel; a

e) lle bo Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, yr effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.28 Mae Adran 3 y ddogfen hon yn cynnwys ein hasesiad dros dro o effaith ein cynigion polisi at ddibenion adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Rydym wedi integreiddio ein hasesiad o effaith ar gyfer pob un o'n cynigion penodol yn Adran 3, ac felly yn ein trafodaeth ehangach ynghylch pam rydym yn credu bod y cynigion hyn yn briodol. . Mae'r asesiad o'r effaith yn Adran 3 yn defnyddio asesiad costau dros dro Ofcom yn Atodiad 1.

2.29 Mae Atodiad 2 yn nodi ein hasesiad dros dro o'r effaith ynghylch effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf Gogledd Iwerddon a grwpiau eraill o bobl. Mae hefyd yn nodi ein hasesiad dros dro o effeithiau ein cynigion ar y Gymraeg.

## Pwysigrwydd newyddion a gwybodaeth leol

2.30 Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar weithredu'r drefn statudol newydd sy'n ymwneud â newyddion a gwybodaeth leol o dan Ran 5 o'r Ddeddf.

2.31 Fel y nodwyd gennym yn y trosolwg, mae cyfryngau lleol, ac yn enwedig newyddion lleol, yn chwarae rhan bwysig mewn cymdeithas. Gall helpu i gynnig manteision pwysig drwy gefnogi democratiaeth leol a dal cynghorau a sefydliadau lleol eraill i gyfrif. Gall cyfryngau a newyddion lleol helpu cymunedau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a gwybodaeth leol, a all maes o law helpu i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ac ymgysylltiad cymunedol.

2.32 Mae darparu newyddion a gwybodaeth leol ar y radio yn dal yn bwysig. Er gwaethaf newidiadau ehangach yn y ffordd mae pobl yn defnyddio cyfryngau lleol, mae radio masnachol lleol yn dal yn gyfrwng allweddol i bobl gael gafael ar newyddion a gwybodaeth leol: roedd ychydig o dan hanner holl oedolion y DU yn gwrando ar radio masnachol lleol yn 2024 (48%)[2] a dywedodd dros un rhan o bump o oedolion y DU (22%) )[3] yn benodol eu bod yn defnyddio radio masnachol lleol fel ffynhonnell newyddion a gwybodaeth leol yn 2023.

2.33 Gall radio lleol ddarparu ffynhonnell berthnasol, amserol, gywir a dibynadwy o newyddion a gwybodaeth leol a chyfrannu at luosogrwydd newyddion. Gall hefyd fod yn ffordd gyfleus o ddysgu am newyddion lleol, gan ei fod ar gael ochr yn ochr â chynnwys arall (e.e. cerddoriaeth) - o'i gymharu ag ar-lein, teledu a ffynonellau lle mae angen mynd ati'n aml i chwilio am newyddion[4]. Gall radio fod yn arbennig o ddefnyddiol o ran rhoi gwybod i wrandawyr am y newyddion diweddaraf: mae dros hanner y gwrandawyr radio masnachol lleol (54%) yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n dibynnu ar fy ngorsaf radio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am newyddion sy'n torri" a dywedodd cyfranogwyr yn ein hymchwil fod clywed stori ar y radio wedi eu helpu i edrych yn fanylach ar eitem newyddion [5].

[2] RAJAR Ch4 2024, oedolion 15 oed a hŷn yn y DU, TSAs gorsafoedd unigol, pwysau 12 mis

[3] Arolwg Cyfryngau Lleol Ofcom Arolwg Cyfryngau Lleol, sleid 13

[4] Canfu ein hymchwil ansoddol ar gyfer Adolygiad Cyfryngau Lleol 2024 fod radio lleol yn ffordd gyfleus o gael diweddariadau traffig, ac roedd llawer o bobl yn croesawu clywed am newyddion lleol yn fwy cyffredinol.

[5] IPA TouchPoints SuperHub 2023-24

2.34 Dywedodd 42% o wrandawyr radio masnachol lleol wythnosol eu bod yn gwerthfawrogi newyddion lleol yn arbennig ar y radio, wedi'i ddilyn gan newyddion cenedlaethol a gwybodaeth leol fel teithio a thraffig lleol (29% ar gyfer y ddau), a'r tywydd (26%)[6]. Mae chwe gwrandäwr radio masnachol lleol o bob deg yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n dibynnu ar radio lleol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am newyddion lleol".[7] Pan ofynnwyd iddynt am amlder bwletinau newyddion lleol ar radio masnachol, teimlai'r rhan fwyaf fod hyn fwy neu lai'n iawn.[8]. Y farn gyffredinol oedd, oherwydd y gallai newyddion newid mor gyflym, y gallai gwrandawyr golli bwletinau os oeddent yn llai aml (ac os nad oeddent ar yr awr, efallai y byddant yn anoddach dod o hyd iddynt).

2.35 Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad y Llywodraeth yn 2017 ar Ddadreoleiddio Radio Masnachol hefyd yn datgelu cefnogaeth i gynnal y gofynion i orsafoedd radio masnachol ddarparu newyddion lleol a gwybodaeth graidd, fel gwybodaeth am draffig a theithio a'r tywydd.

---

[6] Ibid.
[7] Ibid.
[8] Ofcom, Adolygiad o'r cyfryngau lleol yn y DU

# 3. Ein cynigion

3.1 Yn yr adran hon, rydym yn nodi ein cynigion ynghylch amodau'r drwydded rydym yn credu y byddai'n briodol eu cymhwyso i drwyddedau radio masnachol analog lleol ynghylch newyddion a gwybodaeth leol, ein rhesymeg, a'r camau nesaf. Rydym yn ystyried pa amodau trwydded sy'n briodol; yn gyntaf, ynglŷn â darpariaeth newyddion lleol yn gyffredinol (gan gynnwys ei hamlder); yn ail, ynglŷn â newyddion a gesglir yn lleol; yn drydydd, ynglŷn â gwybodaeth leol; ac yn olaf, ynglŷn â chynnal Ffeil Gyhoeddus.

## Newyddion lleol

3.2 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau rydym yn credu sy'n briodol yn nhrwydded pob gorsaf radio fasnachol analog leol, er mwyn mynnu bod newyddion lleol yn cael ei "ddarlledu'n rheolaidd". Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi disgresiwn i Ofcom beidio â chynnwys amodau o'r fath mewn trwyddedau pan fyddwn ni'n credu ei bod hi'n briodol i'r gofynion hyn beidio â bod yn berthnasol.

### Yr amod a gynigir

3.3 Am y rhesymau a nodir isod, rydym yn cynnig bod y rhan fwyaf o wasanaethau radio trwyddedig yn ychwanegu'r amod trwydded newydd canlynol at eu trwydded[9]:

**Rhaid darlledu newyddion lleol ar y Gwasanaeth Trwyddedig o leiaf bob awr rhwng 06.00 a 19.00 (yn gynwysedig) yn ystod yr wythnos ac ar o leiaf dri achlysur gyda bylchau addas rhyngddynt rhwng 07.00 a 12.00 ar benwythnosau.**[10]

3.4 Fel y nodwyd ym Mhennod 2 uchod, mae newyddion lleol dibynadwy a manwl yn parhau i chwarae rhan werthfawr ym mywydau pobl ledled y DU ac mewn cymdeithas yn ehangach. Gall fod yn ffynhonnell ddibynadwy o newyddion a gwybodaeth gyfoes i wrandawyr lleol, a helpu i gefnogi democratiaeth leol a dal pŵer i gyfrif.

3.5 Mae ein cynnig uchod yn cydnabod pwysigrwydd newyddion lleol, ac mae wedi cael ei ddylunio i sicrhau bod newyddion lleol yn cael ei ddarlledu'n rheolaidd ar adegau sy'n golygu ei fod yn debygol o fod o'r budd mwyaf i wrandawyr. Y rheswm am hyn yw ei fod yn sicrhau bod newyddion yn cael ei ddarlledu pan fydd y gyfran fwyaf o wrando ar y radio yn digwydd: mae rhwng 06.00 a 19.00 yn ystod yr wythnos yn cynnwys oriau brig amser brecwast a diwedd y prynhawn, yn ogystal â rhaglenni yn ystod y dydd. Ar benwythnosau, rydym yn cynnig darlledu newyddion yn rheolaidd yn ystod oriau brig amser brecwast, ac mae ein cynigion yn cydnabod bod rhain yn tueddu i ddechrau'n hwyrach na rhaglenni brecwast yn ystod yr wythnos.

---

[9] Fel sy'n cael ei egluro yn nhroednodyn 1 uchod, cafodd amodau trwydded presennol trwyddedeion mewn perthynas â newyddion lleol eu cadw drwy reoliad 4 o Reoliadau Deddf Cyfryngau 2024 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2024. Ar yr un pryd ag ychwanegu'r amod trwydded newydd arfaethedig a nodir uchod, rydym hefyd yn cynnig dileu unrhyw amodau trwydded presennol mewn perthynas â newyddion lleol.

[10] Rydym hefyd yn cynnig ymgorffori'r diffiniad o newyddion lleol fel y nodir yn adran 314(7) i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn y drwydded.

3.6 Mae'r lefel hon o ofyniad newyddion, rydym yn ei galw'n "wasanaeth llawn" er hwylustod, yn debyg i'r hyn rydym hyd yma wedi'i alw'n wasanaeth "gwell".

3.7 Mae'r rhan fwyaf o orsafoedd eisoes yn darparu'r lefel gwasanaeth a ddisgrifir yn yr amod trwydded rydym yn ei gynnig. Bydd mynnu bod gorsafoedd yn darparu newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod yr wythnos yn golygu y dylai gwrandawyr barhau i elwa o ddarparu newyddion lleol yn rheolaidd ar eu gorsaf leol; ac ni fyddant yn gweld gostyngiad yn faint o newyddion lleol y gallant gael gafael arno drwy radio masnachol lleol. Nodwn fod llawer o'r ymatebwyr i'n hymchwil diweddar[11] wedi dweud eu bod yn fodlon ar amlder presennol y newyddion lleol a gawsant ar radio masnachol, sydd, ar y rhan fwyaf o orsafoedd, ar lefel gwasanaeth llawn. Rydym yn cynnig y bydd yr amod hwn yn cael ei gefnogi gan ofyniad tryloywder, sy'n golygu bod yn rhaid i wasanaethau ddisgrifio sut maent yn bodloni'r gofyniad hwn yn eu Ffeil Gyhoeddus.

3.8 Ar wahân i'r nifer fach o wasanaethau radio trwyddedig sydd â throsiant isel iawn (rydym yn trafod hyn o baragraff 3.29 isod ymlaen), rydym yn cynnig defnyddio'r gofyniad hwn yn gyson ar draws pob trwydded. Mae'r mwyafrif helaeth o'r gwasanaethau eisoes yn darlledu newyddion lleol yn ddigon aml i gyfateb i'n cynnig gwasanaeth llawn.

3.9 Er bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau trwyddedig eisoes yn darparu gwasanaeth llawn a llawer o rai eraill yn darparu'n agos at wasanaeth llawn, i rai bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig yn mynnu cynnydd yn eu darpariaeth newyddion lleol. Mae 241 o wasanaethau radio trwyddedig, ac ni ddylai ein cynigion effeithio ar 193 ohonynt gan eu bod eisoes yn darparu'r hyn sy'n cyfateb i wasanaeth llawn. O'r gwasanaethau sydd ar ôl, rydym wedi canfod 41 wedi'u trwyddedu (33 o wasanaethau trwyddedig FM ac 8 AM) ar hyn o bryd sydd â gofyniad rheoleiddio llai (neu ddim gofyniad rheoleiddio) o ran newyddion lleol ac a fyddai'n rhwym wrth ofyniad gwasanaeth llawn o dan ein cynigion. Fodd bynnag, cawn ar ddeall bod 20 o'r gwasanaethau trwyddedig FM hyn eisoes yn darlledu newyddion lleol yn amlach nag y mae'n rhaid iddynt, ac yn cyd-fynd yn fras â'r gofyniad gwasanaeth llawn arfaethedig, fel na fyddem yn disgwyl iddynt wynebu costau ychwanegol (na chostau mawr) o'n cynigion.

3.10 Ar gyfer y 21 gwasanaeth trwyddedig sy'n weddill y byddai angen iddynt ddarparu gwasanaeth llawn o newyddion lleol, rydym wedi amcangyfrif bod y costau ychwanegol yn cyfateb i gost ymlaen llaw gyfartalog o £1,500 a chostau parhaus o lai na £16,000 yr orsaf y flwyddyn. Gall costau parhaus symud i ofynion gwasanaeth llawn amrywio'n sylweddol o'r cyfartaledd. Ar gyfer naw o'r gwasanaethau trwyddedig, mae'r cynnydd mewn costau i fodloni'r gofyniad gwasanaeth llawn yn debygol o fod yn is o lawer na'r cyfartaledd hwn. Mae ein gwaith modelu'n awgrymu y byddai'r costau ychwanegol yn canolbwyntio mwy ar y 12 gwasanaeth trwyddedig sy'n weddill (mae rhagor o fanylion yn Atodiad 1).

3.11 Rydym yn nodi bod saith gwasanaeth trwyddedig ychwanegol rydym yn cynnig na ddylent fod yn rhwym wrth ofyniad gwasanaeth llawn, ond y dylent fod yn rhwym wrth y gofynion oriau brig yn unig. Trafodir hyn ymhellach o baragraff 3.29 ymlaen.

## Opsiynau eraill a ystyriwyd

3.12 Rydym wedi ystyried a fyddai gofyniad i ddarlledu bwletinau newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod oriau brig yn unig[12] yn briodol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o orsafoedd ddarparu newyddion yn ystod y dydd. Byddai gofyniad i ddarlledu newyddion lleol yn ystod yr oriau brig yn unig yn golygu gostyngiad posibl mewn newyddion lleol i wrandawyr, oherwydd – heb reoleiddio – efallai na fydd gorsafoedd radio lleol yn cael eu cymell i ddarparu newyddion lleol. Mae llawer o'r gorsafoedd hyn hefyd yn gwasanaethu'r poblogaethau lleol mwyaf ac felly mae ganddynt y potensial i gyrraedd y mwyafrif o wrandawyr. Ar sail y dystiolaeth o'n hymchwil bod gwrandawyr yn gwerthfawrogi newyddion lleol (a bod y rhan fwyaf yn teimlo bod amlder presennol bwletinau newyddion ar radio masnachol lleol fwy neu lai'n iawn), nid ydym yn ystyried y byddai hyn yn ganlyniad da i wrandawyr yr 193 goraf hynny. Yn olaf, rydym yn poeni y byddai lleihau'r ddarpariaeth newyddion lleol yn mynd yn groes i ysbryd y Ddeddf, sy'n tanlinellu pwysigrwydd newyddion a gwybodaeth leol ar wasanaethau radio lleol.

3.13 Rydym hefyd wedi ystyried a fyddai'n briodol cadw gofynion newyddion lleol presennol pob gwasanaeth trwyddedig (gan gynnwys cynnal unrhyw esemptiadau neu drefniadau pwrpasol). Byddai hyn yn golygu na fyddai'r trwyddedeion yn wynebu rhagor o gostau. Fodd bynnag, roedd llawer o'r gofynion hyn yn cysylltu amlder bwletinau newyddion lleol â rhwymedigaethau rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol. O dan y fframwaith statudol newydd, nid oes gan Ofcom bŵer mwyach i fynnu bod rhaglenni yn cael eu gwneud yn lleol ac o'r herwydd nid oes amodau trwydded mwyach sy'n mynnu rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol mewn trwyddedau radio masnachol lleol. Felly, nid yw hyn yn ffactor priodol i ni ei ystyried mwyach wrth osod amodau newyddion lleol.

3.14 Rydym hefyd wedi ystyried a fyddai'n briodol gosod amod sy'n mynnu bod newyddion lleol yn cael ei ddarlledu'n rheolaidd heb unrhyw fanylion penodol pellach. Effaith hyn fyddai y gallai pob gwasanaeth trwyddedig unigol benderfynu pa mor aml i ddarlledu'r cynnwys hwn. Fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig pennu isafswm o ran pa mor aml mae'n rhaid darlledu newyddion lleol. O ystyried y gwahanol gymhellion golygyddol a masnachol i ddarparu newyddion lleol, mae'n debygol y byddai rhai gorsafoedd yn darparu llai o newyddion nag y maent ar hyn o bryd. Gallai hyn arwain at ddarpariaeth gyffredinol anghyson ac o bosibl at lai o ddarpariaeth, ac felly efallai na fydd yn sicrhau'r manteision i ddinasyddion a defnyddwyr o gael newyddion lleol rheolaidd. Ni fyddai'r canlyniad hwn ychwaith yn cyd-fynd â bwriad y Senedd y byddai'r Ddeddf yn diogelu darparu newyddion lleol.

3.15 Nodwn y byddai'n bosibl bod yn fwy rhagnodol am *isafswm* y newyddion lleol a fyddai'n cael ei ddarparu, yn ogystal â'r isafswm o ran pa mor aml mae'n rhaid darlledu newyddion lleol. Fodd bynnag, rydym o'r farn dros dro na fyddai'n briodol nac yn gymesur gosod cwotâu ynghylch sawl awr a munud o newyddion lleol y dylai gwasanaeth ei ddarparu, na hyd bwletin. Rydym o'r farn mai penderfyniad golygyddol i'r trwyddedeion yw'r dull gweithredu ar gyfer bwletinau, gan mai nhw fydd yn y sefyllfa orau i wybod beth sy'n gweithio orau i'w gwrandawyr (ac rydym yn cydnabod y gall yr hyn sy'n briodol fod yn wahanol o ddydd i ddydd yn dibynnu ar y cylch newyddion).

[12] H.y. rhaglenni amser brecwast a diwedd y prynhawn yn ystod yr wythnos a rhai brecwast hwyr ar benwythnosau

3.16 Felly, yr opsiwn gwasanaeth llawn yw'r opsiwn rydym yn ei ffafrio ar gyfer y rhan fwyaf o'r trwyddedeion. Mae'n cynnal lefel y newyddion sy'n cael ei darparu ar hyn o bryd gan y rhan fwyaf o wasanaethau radio lleol, ac mae ein hymchwil yn awgrymu bod gwrandawyr yn fodlon â hyn. Mae hefyd yn sicrhau y bydd y mwyafrif helaeth o wrandawyr yn gallu cael gafael ar newyddion lleol pan fyddant yn fwyaf tebygol o wrando ar y radio (h.y. yn ystod yr wythnos ac yn ystod oriau brig ar benwythnosau). Rydym hefyd o'r farn bod yr amod arfaethedig yn rhoi eglurder a chysondeb rheoleiddiol i randdeiliaid, gan gynnwys trwyddedeion, a'i fod yn ffordd gymesur o gyflawni ein nod sef gweithredu'r Ddeddf.

**Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'r amod trwydded rydym yn ei gynnig ar ddarparu newyddion lleol? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad dros dro o'r effaith ar orsafoedd radio, fel y nodir uchod ac yn Atodiad 1? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad:**

A oes unrhyw effeithiau eraill nad ydym wedi'u nodi? Rhowch fanylion yr effeithiau hyn a thystiolaeth i'w cefnogi os oes tystiolaeth ar gael.

**Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad:**

A oes unrhyw opsiynau eraill i weithredu gofynion y Ddeddf nad ydym wedi'u nodi ac a fyddai, yn eich barn chi, yn fwy priodol a chymesur? Rhowch fanylion unrhyw opsiynau eraill o'r fath, a'r rhesymeg drostynt, fel rhan o'ch ateb.

## Newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol

3.17 Ochr yn ochr â'r gofynion ynghylch darparu newyddion lleol yn rheolaidd, mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau rydym yn credu sy'n briodol yn nhrwydded pob gorsaf radio masnachol analog leol er mwyn mynnu bod newyddion lleol yn "cynnwys newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol".

3.18 Mae geiriad y ddeddfwriaeth sy'n cyfeirio at raglenni sy'n cynnwys newyddion a gwybodaeth leol ("consist of or include") – yn ei gwneud yn glir y dylai holl newyddion lleol gorsaf, neu rywfaint ohono, gael ei "gasglu'n lleol", sy'n cael ei ddiffinio gan adran 314(7) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2023[13] fel:

i) newyddion a gasglwyd yn ardal ddarpariaeth gwasanaeth amlblecs radio lleol sydd i raddau helaeth yn cynnwys ardal ddarpariaeth y gwasanaeth darlledu sain lleol gan bobl sy'n casglu newyddion yn ystod cyflogaeth neu fusnes, neu;
ii) os nad oes gwasanaeth amlblecs radio lleol gydag ardal ddarpariaeth o'r fath, newyddion sy'n cael ei gasglu yn yr ardal neu'r ardal leol lle mae'r gwasanaeth darlledu sain lleol yn cael ei ddarparu gan bobl sy'n casglu newyddion yn ystod cyflogaeth neu fusnes.

[13] Adran 44(7)(c) o Ddeddf Cyfryngau 2024

## Yr amod a gynigiwn ar gyfer trwyddedau

3.19 Am y rhesymau a nodir isod, rydym yn cynnig bod y rhan fwyaf o waswanaethau radio trwyddedig yn ychwanegu'r amod trwydded newydd canlynol at eu trwydded:

**Rhaid i'r newyddion lleol a ddarlledir ar y Gwasanaeth Trwyddedig gynnwys newyddion a gasglwyd yn ardal ddarpariaeth gwasanaeth amlblecs radio lleol sydd i raddau helaeth yn cynnwys ardal ddarpariaeth y Gwasanaeth Trwyddedig (neu, lle nad oes amlblecs o'r fath, o fewn ardal ddarpariaeth y Gwasanaeth Trwyddedig) gan bobl sy'n casglu newyddion yn ystod cyflogaeth neu fusnes.**[14]

3.20 Mae rheoleiddio radio wedi cael ei symleiddio'n sylweddol o ganlyniad i Ran 5 o'r Ddeddf, ond mae'r Senedd wedi egluro pwysigrwydd penodol newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol. Rydym hefyd yn cydnabod y manteision y gall newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol eu cynnig i wrandawyr, yn enwedig o ystyried nad yw'n ofynnol mwyach i wasanaethau radio masnachol lleol ddarlledu rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol. Mae'n sicrhau bod gwasanaethau'n cynnal presenoldeb ffisegol yn yr ardal leol a dylai hefyd helpu i sicrhau bod y newyddion lleol yn berthnasol i wrandawyr.

3.21 Canfu ymchwil defnyddwyr Ofcom ar newyddion a chyfryngau lleol yn y DU fod portreadu ardal yn gywir yn ffactor allweddol o ran gwneud i gyfryngau lleol deimlo'n lleol – er enghraifft, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig bod enwau lleoedd lleol yn cael eu hynganu'n gywir, a bod newyddiadurwyr yn gallu adnabod a deall y cyd-destun lleol yn ddigonol.[15] O ystyried hyn, a phwysigrwydd newyddion lleol perthnasol i wrandawyr ac i gymdeithas yn ehangach, ein barn dros dro yw y dylai'r gofyniad newyddion newydd sy'n cael ei gasglu'n lleol gael ei gymhwyso mewn ffordd gyson i drwyddedeion (ac eithrio'r rheini sydd â throsiant isel iawn). Felly, rydym yn cynnig y dylai'r amod hwn fod yn berthnasol i bob gwasanaeth trwyddedig sy'n rhwym wrth ofyniad gwasanaeth llawn ynglŷn â newyddion lleol.

3.22 Mae'r Ddeddf yn nodi bod newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol yn "newyddion sydd wedi'i **gasglu yn** ardal darpariaeth gwasanaeth amlblecs radio lleol...gan bobl sy'n casglu newyddion yn ystod cyflogaeth neu fusnes". Rydym yn ystyried bod "casglu yn" yn golygu casglu newyddion gan rywun sy'n bresennol yn gorfforol yn yr ardal berthnasol ar yr adeg maent yn casglu'r newyddion.

3.23 Bydd y gofyniad arfaethedig i newyddion lleol gynnwys newyddion a gesglir yn lleol yn rhoi hyblygrwydd i'r trwyddedeion o ran sut maent yn ei fodloni. Er enghraifft:

a) er y gallent ddewis cyflogi newyddiadurwyr lleol unigol i ddiwallu'r gofyniad hwn, gallent er enghraifft, wneud trefniadau gyda darparwyr newyddion lleol eraill, fel papurau newydd lleol neu gyfryngau eraill i gasglu newyddion yn lleol. Byddai gan drwyddedeion rywfaint o hyblygrwydd hefyd wrth benderfynu pa straeon newyddion lleol penodol sy'n cael eu casglu'n lleol; ac

b) nid ydym yn cynnig rhagnodi yn amod y drwydded pa mor aml y dylid darlledu newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol, faint o newyddion lleol y dylid ei gasglu'n lleol, na

[14] Fel y nodwyd uchod, rydym hefyd yn cynnig ymgorffori'r diffiniad o newyddion lleol fel y nodir yn adran 314(7) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn y drwydded.

[15] Local news and media in the UK: Qualitative consumer research report, Gorffennaf 2024

sut dylid trefnu adnoddau newyddiadurol lleol. Rydym yn credu y dylai'r newyddion maen nhw'n ei ddarlledu sy'n cael ei 'gasglu'n lleol' fod yn benderfyniad golygyddol i'r trwyddedeion, gan ddibynnu ar yr agenda newyddion ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

3.24 Ac ystyried yr hyblygrwydd rydym yn ei gynnig i drwyddedeion, rydym yn credu ei bod hi'n bwysig eu bod yn dryloyw gydag Ofcom a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol am eu dull o gasglu newyddion lleol. Felly, rydym yn cynnig bod yr amod hwn yn cael ei gefnogi gan ofyniad tryloywder, a bod yn rhaid i wasanaethau ddisgrifio sut maent yn bodloni'r gofyniad hwn yn eu Ffeil Gyhoeddus.

3.25 Rydym o'r farn bod ein dull gweithredu i roi'r gofynion a gyflwynir gan y Ddeddf ar waith yn llai ymwthiol o'i gymharu â dewisiadau eraill a allai ragnodi cwotâu ar gyfer faint o newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol ar draws bwletinau newyddion lleol, a sut mae'r newyddion hwnnw'n cael ei gasglu. Ein hasesiad ni yw na fydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o drwyddedeion wynebu costau ychwanegol sylweddol, gan fod llawer eisoes â threfniadau mewn lle i gasglu newyddion yn yr ardal leol gan ddefnyddio adnoddau newyddiadurwyr mewnol, llawrydd neu drydydd parti.

3.26 Fodd bynnag, mae rhai trwyddedeion a fyddai'n wynebu costau ychwanegol o dan ein cynnig. Mae rhai trwyddedeion yn debygol o fod angen cyflogi rhagor o newyddiadurwyr ar draws gwahanol ranbarthau (neu gymryd camau eraill fel contractio gyda chyflenwr allanol). Mae i ba raddau y bydd hyn yn effeithio ar gostau yn dibynnu ar eu trefniadau presennol a'u gallu i adleoli adnoddau newyddiadurol presennol. Rydym wedi rhoi amcangyfrifon o'r costau sy'n gysylltiedig â gwahanol lefelau o adnoddau newyddiadurwyr ychwanegol yn Atodiad 1. Gan fod yr amod trwydded rydym yn ei gynnig yn rhoi llawer iawn o hyblygrwydd i drwyddedeion, bydd y gost i bob trwyddedai yn dibynnu i raddau helaeth ar yr hyn maen nhw'n penderfynu yw'r dull gweithredu cywir i'r orsaf.

3.27 Rydym hefyd yn ymwybodol y gallai rhai trwyddedeion (yn bennaf y rhai sy'n rhan o grwpiau rhwydwaith) fod wedi gallu lleihau costau eraill yn barod o ganlyniad i'r mesurau dadreoleiddio sydd eisoes wedi cael eu rhoi ar waith.[16] O ganlyniad, mae'n bosibl bod unrhyw gostau ychwanegol i'r trwyddedeion hyn eisoes wedi cael eu gwrthbwyso'n rhannol. Roedd Asesiad o Effaith Bil Cyfryngau yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hefyd wedi nodi bod hyn yn ganlyniad tebygol.

3.28 Fodd bynnag, i'r gorsafoedd lleiaf un sydd â throsiant isel iawn, gallai hyd yn oed costau ychwanegol bach gael effaith fawr, a allai yn y pen draw greu risg o gau, gan leihau'r dewis i wrandawyr o bosibl. Rydym yn trafod ein cynigion mewn perthynas â'r gorsafoedd hyn o baragraff 3.29 ymlaen.

**Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'r amod trwydded rydym yn ei gynnig i fynnu bod newyddion lleol yn cynnwys newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 6 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad dros dro o'r effaith ar orsafoedd radio? Rhowch resymau dros eich ateb.

[16] Mae hyn yn cynnwys dileu Fformatau a gofynion 'gwneud yn lleol'

**Cwestiwn 7 yr Ymgynghoriad:**

A oes unrhyw effeithiau eraill nad ydym wedi'u nodi? Rhowch fanylion yr effeithiau hyn.

# Trwyddedeion â throsiant isel iawn

3.29 Fel y trafodwyd uchod, bydd gweithredu ein cynigion ar newyddion lleol (gan gynnwys newyddion a gesglir yn lleol) yn cael effaith ar gostau rhai trwyddedeion.

3.30 Rydym wedi canfod nifer fach sydd â throsiant isel iawn, sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig yn gyffredinol ac sy'n aml yn dibynnu ar wirfoddolwyr. Rydym o'r farn y gallai hyd yn oed costau ychwanegol bach gael effaith sylweddol ar y trwyddedeion hyn. I'r trwyddedeion hyn, gallai'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â glynu wrth ofyniad gwasanaeth llawn gynrychioli mwy na'u trosiant blynyddol a byddent yn cael effaith fawr ac yn creu risg sylweddol o gau, gan leihau'r dewis i wrandawyr.

3.31 Am y rhesymau a nodir isod, rydym felly'n cynnig rhoi'r amod trwydded canlynol ar waith i nifer fach o drwyddedeion yn hytrach na'r amodau trwydded safonol sy'n cael eu cynnig uchod.

**Rhaid darlledu newyddion lleol ar y Gwasanaeth Trwyddedig o leiaf dair gwaith gyda bylchau addas rhyngddynt rhwng 06.00 a 10.00, ac o leiaf dair gwaith gyda bylchau addas rhyngddynt rhwng 16.00 a 19.00 yn ystod yr wythnos. Ar benwythnosau, rhaid darlledu newyddion lleol ar y Gwasanaeth Trwyddedig o leiaf dair gwaith gyda bylchau addas rhyngddynt rhwng 07.00 a 12.00.** [17]

3.32 Ein cynnig yw mai dim ond i nifer fach o drwyddedeion na fyddai'r amod trwydded safonol arfaethedig yn cael effaith fawr arnynt nac yn creu risg sylweddol o gau y dylai'r amod trwydded hwn fod yn berthnasol. Yn benodol, rydym yn cynnig defnyddio'r amod trwydded hwn pan fydd trosiant perthnasol[18] y trwyddedai (a'i ymrwymiadau grŵp,[19] pan fydd y trwyddedai yn rhan o grŵp) o ddarparu gwasanaethau radio masnachol lleol yn llai na £50,000 y flwyddyn.

3.33 Cawn ar ddeall bod gan chwe thrwyddedai (sydd gyda'i gilydd yn darparu saith gwasanaeth radio trwyddedig) refeniw radio lleol o dan y trothwy hwn yn 2023/24. Felly, rydym yn cynnig bod yr amod 'oriau brig' yn unig hwn yn berthnasol i ddim ond saith gwasanaeth radio trwyddedig. Yng ngweddill y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at y trwyddedeion hyn fel y rheini sydd â 'throsiant isel iawn'.

3.34 Wrth gyflwyno'r cynnig hwn, rydym yn ymwybodol - er nad yw llawer o'r trwyddedeion hyn sydd â throsiant isel iawn efallai'n darparu newyddion lleol yn ystod y dydd - mae'r rhan fwyaf yn ei ddarparu yn ystod oriau brig yn ystod yr wythnos (brecwast a diwedd y prynhawn) ac yn ystod oriau brig ar benwythnosau mewn llawer o achosion (h.y. yn ystod y rhaglen frecwast ar benwythnosau) hefyd. O ystyried pwysigrwydd newyddion lleol i

---

[17] Bydd y diffiniad o newyddion lleol fel y nodir yn adran 314(7) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn cael ei ymgorffori yn yr amod trwydded rydym yn ei gynnig.
[18] Fel y diffinnir yn ein Datganiad Egwyddorion Codi Tâl
[19] Yn benodol, bwriadwn gyfeirio at ymrwymiadau grŵp fel y'u diffinnir gan adran 1161(5) o Ddeddf Cwmnïau 2006.

wrandawyr, rydym yn awyddus i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn parhau i ddarparu rhywfaint o newyddion lleol. Rydym hefyd yn poeni y byddai'n anghyson â nod y Ddeddf pe bai llai o newyddion lleol yn cael ei ddarparu.

3.35 Rydym yn cynnig peidio â mynnu bod y trwyddedeion hynny sydd â throsiant isel iawn yn darparu newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol. Ar hyn o bryd mae llawer o'r trwyddedeion hyn yn defnyddio gwirfoddolwyr i gasglu newyddion. Fodd bynnag, rydym o'r farn na fyddai defnyddio gwirfoddolwyr yn bodloni gofyniad y Ddeddf bod newyddion yn cael ei gasglu gan bobl sy'n casglu newyddion fel rhan o'u cyflogaeth neu eu busnes, ac rydym yn poeni y byddai'r gost o fynnu bod newyddion yn cael ei gasglu gan bobl o'r fath yn anghymesur i'r gorsafoedd hyn. Rydym yn cydnabod y gallai sefyllfa ariannol y trwyddedeion hyn newid dros amser. Pe bai eu trosiant yn newid yn sylweddol, neu pe baent yn dod yn rhan o grŵp mwy gyda throsiant mwy, byddem yn disgwyl ailedrych ar yr amodau yn eu trwyddedau, gan y gallai'r amodau trwydded safonol arfaethedig ddod yn fwy priodol. Yn y dyfodol, rydym yn cynnig defnyddio'r data trosiant blynyddol perthnasol sydd eisoes yn cael ei gyflwyno i Ofcom fel rhan o'i weithgareddau rheolaidd i fonitro'r farchnad er mwyn nodi unrhyw newidiadau sylweddol mewn trosiant.

**Cwestiwn 8 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig i drwyddedeion sydd â throsiant isel iawn (h.y., dan £50,000)? Rhowch resymau dros eich ateb.

## Cymhwyso amod oriau brig yn unig i wasanaethau trwyddedig eraill

3.36 Fel y nodir uchod, rydym yn cynnig defnyddio amod 'oriau brig' yn unig gyda thrwyddedeion sydd â throsiant isel iawn (h.y., llai na £50,000). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oes yn rhaid i bob trwyddedai (neu drwyddedeion sy'n rhan o grŵp) sydd â throsiant sy'n uwch na'r trothwy hwn ddarparu newyddion 'gwasanaeth llawn' ar eu gwasanaethau trwyddedig. I rai o'r trwyddedeion hyn, gallai bodloni'r gofynion arfaethedig gael effaith sylweddol a chreu risg sylweddol o gau i un neu fwy o'u gwasanaethau trwyddedig, hyd yn oed os yw eu trosiant (neu drosiant eu grŵp ehangach) yn fwy na £50,000.

3.37 Nid ydym yn disgwyl i lawer o drwyddedeion ddod o fewn y categori hwn; fel y nodwyd uchod ym mharagraff 3.7 mae'r rhan fwyaf o drwyddedeion eisoes yn darparu gwasanaeth llawn ar eu gwasanaethau trwyddedig neu dylent allu gwneud hynny heb gost ychwanegol sylweddol. Fodd bynnag, gall y rheini sydd yn y categori hwn gyflwyno sylwadau i Ofcom am hyn fel rhan o'r broses o amrywio trwyddedau unigol. Byddai angen iddynt ddangos i Ofcom y byddai gosod y gofynion gwasanaeth llawn newyddion lleol a'r gofynion casglu'n lleol yn debygol o gael effaith sylweddol a chreu risg sylweddol o gau.

3.38 Byddem yn disgwyl cael tystiolaeth, yn benodol, gan y trwyddedai ar:

- Sefyllfa ariannol bresennol a hanesyddol ei wasanaeth trwyddedig o ran refeniw a chostau dros gyfnod digonol (e.e. dros y tair blynedd diwethaf o leiaf lle bo hynny'n bosibl).[20]

[20] Pan fydd gwasanaeth radio trwyddedig yn rhan o grŵp, byddem hefyd yn disgwyl i'r trwyddedai ddarparu gwybodaeth am briodoli costau neu refeniw i'r orsaf radio. Yn benodol, ar gyfer costau a allai gael eu rhannu neu sy'n gyffredin ar draws mwy nag un gwasanaeth trwyddedig.

- Rhagolwg ariannol sy'n ystyried unrhyw ffactorau ychwanegol sy'n debygol o effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth.
- Ei amcangyfrif o effeithiau cost ychwanegol y gwasanaeth llawn newyddion lleol a'r gofynion casglu’n lleol mewn perthynas â'r gwasanaeth trwyddedig hwnnw.[21]

3.39 Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am ragor o wybodaeth am faterion o’r fath sy’n berthnasol yn ein barn ni i’n hasesiad o sylwadau’r trwyddedai.

3.40 Byddwn yn ystyried, ar ôl pwyso a mesur y dystiolaeth sydd ar gael, a fyddai gosod gofyniad gwasanaeth llawn[22] yn debygol o gael effaith sylweddol a chreu risg sylweddol o gau. Os ydym o’r farn bod hyn yn wir, byddem fel arfer yn disgwyl cymhwyso’r gofyniad is arfaethedig (h.y. amod yn ystod oriau brig yn unig) i’r gwasanaethau hynny.

**Cwestiwn 9 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig i gymhwyso'r amod oriau brig yn unig i wasanaethau trwyddedig eraill? Rhowch resymau dros eich ateb.

## Gwybodaeth leol

3.41 Yn Adran 2, fe wnaethom drafod pwysigrwydd darparu gwybodaeth leol a’i manteision i wrandawyr. Mae’r Ddeddf hefyd yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau yn y trwyddedau sy’n cael eu dal gan orsafoedd analog lleol sy’n datgan ei bod yn rhaid iddynt “ddarlledu gwybodaeth leol yn rheolaidd”.

3.42 Diffinnir gwybodaeth leol yn Neddf Cyfathrebiadau 2003[23] fel gwybodaeth sydd o ddiddordeb arbennig:

- i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r ardal leol y darperir y gwasanaeth ar ei chyfer;
- i bobl sy'n byw neu'n gweithio mewn rhan o'r ardal neu'r ardal leol honno; neu
- i gymunedau penodol sy’n byw neu’n gweithio yn yr ardal neu’r ardal leol honno neu ran ohoni.

### Yr amod a gynigir

3.43 Am y rhesymau a nodir isod, rydym yn cynnig ychwanegu’r amod trwydded newydd canlynol at bob trwydded gwasanaeth darlledu sain lleol[24]:

---

[21] Ochr yn ochr â’i amcangyfrif o’r gost, byddem hefyd yn disgwyl i’r trwyddedai egluro pa dybiaethau y mae wedi’u defnyddio i lunio’r amcangyfrif hwnnw. Pan fydd gwasanaeth radio trwyddedig yn rhan o grŵp, byddem hefyd yn disgwyl i’r trwyddedai ddarparu gwybodaeth am gyfleoedd sydd ganddo i rannu adnoddau ar gyfer newyddion lleol ar draws y gwahanol drwyddedau mae’n eu gweithredu.
[22] gan gynnwys y gofyniad bod yn rhaid casglu rhywfaint o’u newyddion lleol yn lleol
[23] Adran 314(7) Deddf Cyfathrebiadau 2003
[24] Rydym hefyd yn cynnig ymgorffori’r diffiniad o wybodaeth leol fel y nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 yn y drwydded.

**Rhaid darlledu gwybodaeth leol ar y gwasanaeth trwyddedig yn rheolaidd rhwng 06.00 a 19.00 yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau.**

3.44 Mae'r oriau "yn ystod y dydd" rhwng 06.00 a 19.00 yn cynnwys oriau brig amser brecwast a diwedd y prynhawn yn ystod yr wythnos a brecwast hwyr ar benwythnosau, yn ogystal â rhaglenni yn ystod y dydd drwy gydol yr wythnos ac ar benwythnosau. Mae hyn yn dangos pryd mae'r gyfran fwyaf o wrando ar y radio yn digwydd, ac mae'n adlewyrchu bod y rhan fwyaf o orsafoedd eisoes yn darlledu gwybodaeth leol drwy lawer o'u rhaglenni yn ystod y dydd, gan gynnwys ar benwythnosau. Dylai ein hamod arfaethedig sicrhau bod hyn yn parhau.

3.45 O ystyried yr amrywiaeth o gynnwys sy'n gallu bod yn wybodaeth leol (gan gynnwys teithio, y tywydd a digwyddiadau lleol), a phwysigrwydd caniatáu hyblygrwydd i orsafoedd benderfynu pa elfennau fyddai'n diwallu anghenion eu gwrandawyr orau, nid ydym yn cynnig bod yn rhagnodol ynghylch pa mor aml (y tu hwnt i fod yn rheolaidd), faint o wybodaeth na natur yr wybodaeth leol sy'n cael ei darlledu. O ystyried yr hyblygrwydd hwn, nid ydym chwaith yn cynnig gwahaniaethu rhwng dyddiau'r wythnos a phenwythnosau yn y ffordd rydym wedi'i wneud yn ein cynigion ar newyddion lleol.

3.46 Fodd bynnag, rydym yn cynnig bod yr amod hwn yn cael ei gefnogi gan ofyniad tryloywder, a bod yn rhaid i wasanaethau ddisgrifio sut maent yn bodloni'r gofyniad hwn yn eu Ffeil Gyhoeddus.

3.47 Gan fod y rhan fwyaf o orsafoedd eisoes yn darlledu gwybodaeth leol drwy lawer o'u rhaglenni yn ystod y dydd, rydym o'r farn nad yw gwneud hyn yn ofyniad trwydded yn debygol o gael effaith sylweddol o ran costau ar drwyddedeion. I orsafoedd sydd angen dechrau darparu gwybodaeth leol neu ei darparu'n amlach drwy gydol y dydd, rydym o'r farn y bydd y costau ychwanegol yn fach – yn enwedig gan ei bod hi'n hawdd cael gafael ar wybodaeth leol benodol fel gwybodaeth am y tywydd.

3.48 Fel y nodir uchod, mae dros un rhan o bump o oedolion y DU (22%)[25] wedi dweud yn benodol eu bod yn defnyddio radio masnachol lleol fel ffynhonnell newyddion a gwybodaeth leol, ac mae gwrandawyr yn gwerthfawrogi gwybodaeth leol ar radio analog masnachol yn arbennig. Bydd ein dull gweithredu arfaethedig yn sicrhau bod gwrandawyr yn parhau i elwa o wybodaeth leol drwy gydol y dydd. Yng ngoleuni'r fantais i wrandawyr o gael gwybodaeth leol reolaidd a'r costau cymharol fach i'r trwyddedeion, rydym o'r farn y bydd effeithiau cyffredinol y cynnig hwn yn gadarnhaol, a bod ein dull gweithredu ar gyfer gweithredu'r rhan hon o'r Ddeddf yn gymesur.

**Cwestiwn 10 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'r amod trwydded rydym yn ei gynnig bod angen darlledu gwybodaeth leol?

**Cwestiwn 11 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad dros dro o'r effaith ar orsafoedd radio? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 12 yr Ymgynghoriad:**

A oes unrhyw effeithiau eraill nad ydym wedi'u nodi? Rhowch fanylion yr effeithiau hyn.

---

[25] Arolwg Cyfryngau Lleol Ofcom Arolwg Cyfryngau Lleol, sleid 13

# Ffeil Gyhoeddus

3.49 Yn ogystal â'r amodau trwydded newydd a gynigir uchod, rydym yn cynnig diwygio amod presennol y drwydded sy'n ymwneud â'r Ffeil Gyhoeddus er mwyn mynnu bod trwyddedeion yn dryloyw am sut maent yn bodloni amodau eu trwydded mewn perthynas â newyddion lleol, gan gynnwys newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol, a gwybodaeth leol.

3.50 Wrth wneud hynny, rydym hefyd yn cynnig (yng ngoleuni'r newidiadau dadreoleiddio ehangach a gyflwynir gan y Ddeddf) dileu'r gofyniad ar drwyddedeion i gynnwys gwybodaeth yn eu Ffeil Gyhoeddus sy'n ymwneud â darparu deunyddiau lleol yn fwy cyffredinol, a rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol.

## Yr amod a gynigir

3.51 Rydym yn cynnig bod yr amod trwydded cyfredol mewn perthynas â'r Ffeil Gyhoeddus (a'r canllawiau cysylltiedig) yn cael ei ddisodli gan yr amod trwydded newydd canlynol:[26]

**Rhaid i'r Trwyddedai gadw Ffeil Gyhoeddus gyfredol mewn perthynas â'r Gwasanaeth Trwyddedig.**

**Rhaid i'r Trwyddedai sicrhau bod y Ffeil Gyhoeddus ar gael ar-lein a sicrhau ei bod yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol o leiaf:**

**a) Manylion pryd gall gwrandawyr glywed newyddion lleol fel arfer ar y Gwasanaeth Trwyddedig;**

**b) Manylion y trefniadau sydd gan y Trwyddedai ar waith i sicrhau bod ei ddarllediad o newyddion lleol yn cynnwys newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol;**

**c) Manylion pryd gall gwrandawyr glywed gwybodaeth leol fel arfer ar y Gwasanaeth Trwyddedig.**

3.52 I drwyddedeion nad oes yn rhaid iddynt ddarlledu newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol, ni fyddai is-adran b) o'r amod yn cael ei chynnwys yn amod y drwydded.

**Cwestiwn 13 yr Ymgynghoriad:**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein cynnig i ddiwygio amod cyfredol y drwydded sy'n ymwneud â'r Ffeil Gyhoeddus? Rhowch resymau dros eich ateb.

# Canllawiau ar ddarparu newyddion a gwybodaeth leol, gan gynnwys gwybodaeth sy'n cael ei chasglu'n lleol

3.53 Ochr yn ochr â mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau mewn trwyddedau ynghylch darparu newyddion lleol, mae'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn cyhoeddi canllawiau ar sut rydym yn

[26] Rydym hefyd yn cynnig dileu'r diffiniad o "Ffeil Gyhoeddus" o bob trwydded. Y rheswm am hyn yw, yng ngoleuni'r newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud i'r amod trwydded Ffeil Gyhoeddus gyfredol, rydym o'r farn nad oes ei angen mwyach.

credu y gall trwyddedeion weithredu'n unol ag amodau newydd y drwydded. Rydym yn cynnig rhoi canllawiau ar y canlynol:

- cynnwys newyddion lleol
- pa mor aml y darperir newyddion lleol
- ystyr casglu'n lleol a'r ardaloedd 'lleol' perthnasol i bob gorsaf
- cynnwys gwybodaeth leol
- pa mor aml y darperir gwybodaeth leol
- y Ffeil Gyhoeddus

Mae ein canllawiau arfaethedig ar gael yma.

## Canllawiau cyffredinol ar newyddion lleol

3.54 Wrth nodi ein canllawiau arfaethedig ar gynnwys newyddion lleol, rydym wedi ystyried canllawiau lleolrwydd blaenorol i orsafoedd radio masnachol lleol. Rydym o'r farn bod rhai o'r canllawiau hyn yn dal yn berthnasol, gan gynnwys yr angen i sicrhau bod newyddion yn gywir, yn gyfredol ac yn cydymffurfio â'r Cod Darlledu. Rydym wedi cadw deunydd o'r fath yn ein canllawiau newydd arfaethedig.

3.55 Roedd ein canllawiau blaenorol yn nodi y dylai bwletinau newyddion gynnwys newyddion y gwledydd (os yw'n berthnasol), newyddion y DU a newyddion rhyngwladol. Fodd bynnag, un o effeithiau'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan y Ddeddf yw nad oes gan Ofcom sail statudol mwyach i fynnu bod gorsafoedd yn darparu newyddion y tu allan i newyddion lleol. Serch hynny, mae ymchwil yn awgrymu bod mathau eraill o newyddion (y tu hwnt i newyddion lleol) yn dal i gael eu gwerthfawrogi gan lawer o wrandawyr. Er enghraifft, mae ymchwil diweddar yn dangos bod pobl sy'n byw yn y gwledydd datganoledig yn gwerthfawrogi newyddion sy'n rhoi sylw i'w gwlad gyfan (diweddariadau gwleidyddol gan amlaf) yn ogystal â newyddion a gwybodaeth sy'n fwy penodol i'w hardal ddaearyddol benodol[27]. Felly, rydym yn parhau i gydnabod y gwerth mae gwrandawyr yn ei roi ar newyddion arall, gan gynnwys newyddion y gwledydd, ac rydym yn annog gorsafoedd i ddarlledu bwletinau sy'n adlewyrchu'r galw am hyn. Fodd bynnag, mae ein canllawiau'n egluro na fydd darparu newyddion y gwledydd na newyddion rhyngwladol, nad yw o ddiddordeb penodol i bobl yn yr ardal leol, yn cael ei ystyried wrth asesu cydymffurfiad trwyddedai â'i ofyniad newyddion lleol.

## Amlder newyddion lleol

3.56 Rydym yn rhoi rhagor o ganllawiau ar ddarparu newyddion yn ystod cyfnodau 'oriau brig' ar benwythnosau (ac yn ystod yr wythnos lle bo hynny'n berthnasol).

3.57 Rydym hefyd yn egluro nad oes angen darparu newyddion drwy fwletin penodol y gellir ei adnabod yn glir, ond gall fod yn rhan o raglen ehangach sydd â chynnwys lleol sydd ag elfennau o newyddion lleol.

[27] Local news and media in the UK: Qualitative consumer research report, Gorffennaf 2024

## Perthnasedd newyddion lleol

3.58 Mae'r canllawiau arfaethedig yn nodi pryd y gellid ystyried bwletin newyddion sy'n cael ei ddarlledu ar draws mwy nag un gwasanaeth trwyddedig yn 'newyddion lleol'.

## Ystyr casglu'n lleol a'r ardaloedd 'lleol' perthnasol i bob gorsaf

3.59 Rydym yn cynnig darparu rhagor o ganllawiau ar ystyr 'casglu yn' ac ar yr ardaloedd 'lleol' perthnasol mewn perthynas â newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol.

## Canllawiau ar wybodaeth leol

3.60 Rydym yn cynnig darparu canllawiau ar yr hyn y gellid ei ystyried yn wybodaeth leol a sut mae modd ei darparu. Mae llawer o'r canllawiau arfaethedig hyn yn adlewyrchu canllawiau lleolrwydd blaenorol ac rydym yn dal o'r farn bod hyn yn berthnasol.

## Canllawiau ar Ffeil Gyhoeddus

3.61 Rydym yn cynnig rhoi canllawiau ar bwrpas y Ffeil Gyhoeddus a sut dylid ei diweddaru.

**Cwestiwn 14 yr Ymgynghoriad:**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein canllawiau arfaethedig ar sut gall trwyddedeion weithredu'n unol â'r gofynion arfaethedig? Rhowch resymau dros eich ateb.

# Y camau nesaf

3.62 Rydym ni'n croesawu unrhyw sylwadau sydd gan randdeiliaid am ein cynigion ac ymgysylltiad pellach gyda phartïon â diddordeb ar y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn.

3.63 Mae gan bartïon tan 5pm ar 22 Medi 2025 i ymateb. Ar ôl y cyfnod ymgynghori, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn nodi ei gasgliad nes ymlaen eleni.

3.64 Ar ôl i ni benderfynu'n derfynol ar ein dull gweithredu yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn gweithredu'r newidiadau drwy wneud amrywiadau i bob trwydded radio masnachol lleol, gan ddilyn y broses a nodir yn y trwyddedau hynny yn unol ag a86(5) Deddf Darlledu 1990.

3.65 Rydym yn cydnabod efallai y bydd angen amser ar rai trwyddedeion i roi'r newidiadau angenrheidiol ar waith er mwyn cydymffurfio â'r gofynion newydd. Felly, er ein bod yn bwriadu cyhoeddi ein hysbysiad amrywio arfaethedig i drwyddedeion unigol yn fuan ar ôl cyhoeddi ein datganiad polisi terfynol, byddwn yn cynnig na fydd yr amrywiad yn dod i rym am chwe mis ar ôl dyddiad yr hysbysiad amrywio terfynol. Rydym o'r farn y dylai hyn roi digon o amser i drwyddedeion sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded newydd. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd amodau presennol y drwydded mewn perthynas â newyddion lleol yn aros yn eu lle nes bydd amrywiadau o'r fath yn dod i rym. Rydym yn croesawu adborth ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu.

**Cwestiwn 15 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'n hamserlen arfaethedig i weithredu'r gofynion newydd? Rhowch resymau dros eich ateb.

# A1. Asesiad cost y cynigion

## Cyflwyniad

A1.1 Yn yr Atodiad hwn, rydym yn egluro sut rydym wedi amcangyfrif y costau ychwanegol y mae gwahanol drwyddedeion yn debygol o'u hwynebu yng ngoleuni ein cynigion newyddion lleol. Fel sy'n cael ei drafod yn Adran 3, ar gyfer y rhan fwyaf o orsafoedd, rydym yn cynnig eu bod yn rhwym wrth ofynion newyddion lleol gwasanaeth llawn, ac rydym yn cynnig y byddai saith gwasanaeth radio trwyddedig sydd â throsiant llai na throthwy o tua £50k y flwyddyn yn rhwym wrth ofynion newyddion lleol yn ystod oriau brig. Rydym wedi modelu'r costau ychwanegol ar gyfer trwyddedeion y mae pob un o'r cynigion hyn yn effeithio arnynt (h.y. y trwyddedeion hynny nad ydynt eisoes yn rhwym wrth yr hyn sy'n cyfateb i ofyniad gwasanaeth llawn).

A1.2 Byddwn wedyn yn trafod costau posibl ar gyfer gofynion a gesglir yn lleol ac ar gyfer gwybodaeth leol.

A1.3 Rydym yn cyflwyno ein hasesiad ehangach o effeithiau ein cynigion, gan gynnwys y manteision a'r costau mewn perthynas â newyddion lleol, casglu'n lleol, a gofynion gwybodaeth leol yn Adran 3.

## Asesiad cost y gofynion newyddion lleol arfaethedig

A1.4 Fel y nodir yn Adran 3, ar gyfer y rhan fwyaf o drwyddedeion, rydym yn cynnig eu bod yn rhwym wrth ofynion gwasanaeth llawn newyddion lleol, a byddai saith gwasanaeth trwyddedig sydd â throsiant llai na throthwy o tua £50k y flwyddyn yn rhwym wrth ofynion newyddion lleol yn ystod oriau brig. I'r rhan fwyaf o drwyddedeion, ni fyddai'r gofynion newyddion lleol arfaethedig yn newid o'u gofynion rheoleiddio blaenorol, ond mewn egwyddor byddai'n golygu mwy o ofyniad i rai trwyddedeion.

A1.5 Yn yr Atodiad hwn rydym yn nodi ein hasesiad dros dro manwl o'r costau ychwanegol i'r trwyddedeion hyn. Er mwyn cyfrannu at ein hasesiad, roeddem wedi casglu gwybodaeth gan ddarlledwyr radio, gan gynnwys pa mor aml maen nhw'n darlledu newyddion lleol ar hyn o bryd a'r costau sy'n gysylltiedig â chasglu a darlledu newyddion lleol. Mewn rhai achosion, roeddem hefyd wedi casglu gwybodaeth am amlder bwletinau newyddion lleol o 'Ffeil Gyhoeddus' yr orsaf, lle'r oedd ar gael.[28]

### Asesiad dros dro i drwyddedeion sy'n rhwym wrth y gofyniad gwasanaeth llawn arfaethedig

A1.6 Rydym wedi nodi 41 o wasanaethau trwyddedig (33 o drwyddedau FM ac wyth AM) sydd â gofyniad rheoleiddio llai (neu ddim) ar hyn o bryd a allai gael eu heffeithio gan symud i ofyniad gwasanaeth llawn ar gyfer bwletinau newyddion lleol. Rydym wedi asesu effaith ariannol gynyddol y newid hwn dros dro.

A1.7 Pan wnaethom archwilio'r ddarpariaeth bresennol, canfu ein hasesiad fod 24 o'r 33 o wasanaethau trwyddedig FM yn darlledu newyddion lleol yn llawer amlach nag sy'n ofynnol

[28] Mae'n rhaid i orsafoedd radio masnachol lleol gyhoeddi Ffeil Gyhoeddus ar eu gwefannau sy'n cynnwys amserlen y bwletinau newyddion lleol.

gan eu trwydded. O'r rhain, rydym o'r farn ei bod yn debygol y byddai 20 o wasanaethau trwyddedig FM eisoes yn cydymffurfio â'r gofynion gwasanaeth llawn a gynigir ac felly na fyddent yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol (na chostau mawr) o ganlyniad i'r cynigion. Byddai angen cynnydd bach mewn darpariaeth newyddion lleol ar y pedwar gwasanaeth trwyddedig FM arall (e.e. bwletinau ychwanegol bob 1-2 awr yn ystod yr wythnos). Ein barn dros dro yw y byddai unrhyw gost ychwanegol i'r gwasanaethau trwyddedig hyn yn fach iawn.

A1.8 Ein barn dros dro yw bod pump arall o'r 33 o wasanaethau trwyddedig FM hefyd yn annhebygol o wynebu costau ychwanegol sylweddol. Mae'r pum gwasanaeth hyn naill ai'n rhan o grwpiau radio Global neu Bauer. Mae dau o'r pump hyn wedi'u heithrio o fwletinau newyddion lleol ar hyn o bryd, ac mae tri sydd â gofyniad oriau brig yn rhan o grwpiau radio Global neu Bauer. Cawn ar ddeall bod Global a Bauer eisoes yn cynhyrchu newyddion lleol bob awr yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos i wasanaethau eraill yn yr ardaloedd daearyddol hyn y gellid eu rhannu. Felly rydym o'r farn mai bach iawn fydd unrhyw gostau ychwanegol i'r pum gwasanaeth trwyddedig hyn (i'r graddau y mae unrhyw gostau).

A1.9 Mae hyn yn gadael dim ond pedwar o'r 33 o wasanaethau trwyddedig FM a fyddai angen 6-8 o fwletinau ychwanegol bob awr yn ystod yr wythnos (yn dibynnu ar hyd presennol y rhaglenni brecwast a diwedd y prynhawn).[29] Cawn ar ddeall bod y trwyddedeion hyn eisoes yn gallu casglu a darlledu newyddion lleol, felly rydym o'r farn bod y costau ychwanegol yn debygol o fod yn fach. Mae'n bosibl y gallai rhai trwyddedeion ddefnyddio adnoddau presennol i gynhyrchu'r bwletinau newyddion lleol ychwanegol gofynnol arfaethedig heb gost ychwanegol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod angen adnoddau ychwanegol ar rai trwyddedeion, ac rydym wedi tybio y bydd angen hyd at 2 awr o adnodd newyddiadurol ychwanegol ar bob gwasanaeth trwyddedig ar bob diwrnod gwaith i gynhyrchu'r bwletinau newyddion lleol ychwanegol. Rydym yn amcangyfrif y gallai hyn gostio hyd at £9,000 y flwyddyn i bob gwasanaeth trwyddedig.[30] Ar ben hynny, rydym yn disgwyl y byddai dau o'r gwasanaethau trwyddedig hyn yn wynebu costau ychwanegol y tu hwnt i hyn er mwyn bodloni'r gofynion, fel y byddai cyfanswm eu costau ychwanegol hyd at £12,000-14,000 y flwyddyn.[31] Byddai'r costau ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau trwyddedig hyn yn amrywio o 3-8% o'u trosiant yn 2023/24.

A1.10 Mae'r amcangyfrifon dros dro o'r costau ychwanegol ar gyfer y 33 gwasanaeth trwyddedig FM wedi'u crynhoi yn y Ffigur isod.

---

[29] Rydym wedi tybio bod trwyddedeion yn darparu'r bwletinau gofynnol (o leiaf) yn unol ag amodau eu trwydded bresennol.

[30] Rydym wedi tybio cost yr awr nodweddiadol ar gyfer newyddiadurwr y tu allan i Lundain o £14 yr awr yn seiliedig ar gyflog cyfwerth â £27k amser llawn. Rydym wedi tybio wythnos waith 37 awr. Rydym wedi caniatáu cynnydd o 22% ar gyfer costau llafur nad ydynt yn ymwneud â chyflogau (gweler canllawiau RPC ar dudalen 5). Felly, y gost ychwanegol fesul trwydded yw cost newyddiadurwr £14/awr x 10 awr o adnoddau ychwanegol yr wythnos x 52 wythnos y flwyddyn x 1.22 (sy'n adlewyrchu cynnydd o 22% mewn costau nad ydynt yn gyflogau).

[31] Mae'r costau ychwanegol hyn oherwydd bod angen amcangyfrif o 3 awr ychwanegol o adnoddau newyddiadurol ar un trwyddedai dros y penwythnos (yn ogystal â mynnu 2 awr ychwanegol yn ystod yr wythnos), ac mae'r llall yn wynebu costau cyflog uwch oherwydd ei leoliad

**Ffigur A2.1: Amcangyfrif o'r costau ychwanegol i wasanaethau trwyddedig FM**

| Nifer y gwasanaethau trwyddedig | Amcangyfrif o'r costau ychwanegol (y flwyddyn) |
|---|---|
| **29** | Sero neu fach iawn |
| **2** | Hyd at £9,000 |
| **2** | Hyd at £12,000-£14,000 |

*Ffynhonnell: Modelu Ofcom, 2025*

A1.11 Nid oes yn rhaid i'r wyth gwasanaeth trwyddedig AM ddarparu newyddion lleol ar hyn o bryd. Nid yw tri ohonynt yn darparu unrhyw newyddion lleol ar hyn o bryd. Er nad oes gofyniad ffurfiol i wneud hynny, mae pump o'r gwasanaethau trwyddedig AM yn darparu rhywfaint o ddiweddariadau newyddion lleol, er eu bod yn is o lawer na gofyniad gwasanaeth llawn. Mae nifer o wasanaethau trwyddedig yn defnyddio'r cyflwynydd radio i gael gafael ar newyddion lleol yn hytrach na newyddiadurwr. O ystyried nad yw'r gwasanaethau hyn yn darparu'r 'gwasanaeth llawn', rydym yn cydnabod y gallai fod angen gwariant mwy sylweddol i fodloni'r cynnig gwasanaeth llawn ar gyfer trwyddedeion AM o'i gymharu â'r trwyddedeion FM sydd ar y gofyniad is ar hyn o bryd.

A1.12 Dros dro rydym o'r farn ei bod yn debygol y bydd angen i'r holl drwyddedeion AM sicrhau adnoddau newyddiadurwyr ychwanegol i er mwyn darparu gwasanaeth llawn newyddion lleol. Ar gyfer y pum gwasanaeth trwyddedig sydd eisoes yn darparu rhywfaint o newyddion lleol, rydym wedi tybio adnodd newyddiadurol ychwanegol sy'n cyfateb i 0.75 FTE fesul trwydded.[32] Ar gyfer y tri gwasanaeth trwyddeddig nad ydynt yn darlledu unrhyw newyddion lleol ar hyn o bryd, rydym wedi tybio adnodd newyddiadurol ychwanegol sy'n cyfateb i 1 FTE fesul trwydded. Rydym yn nodi nad oes angen i drwyddedeion gyflogi staff ychwanegol yn uniongyrchol o reidrwydd, oherwydd gallant ddefnyddio newyddiadurwyr llawrydd, rhannu adnoddau newyddiadurol drwy drefniadau pwrpasol, neu gaffael newyddion lleol drwy wasanaethau newyddion trydydd parti.

A1.13 Rydym hefyd yn cydnabod y gallai'r trwyddedeion AM wynebu costau sefydlu ychwanegol, h.y. recriwtio newyddiadurwyr.[33] Rydym wedi tybio costau recriwtio unigol sy'n cyfateb i 25% o gostau cyflog pro rata ychwanegol.[34] Mae'r tabl isod yn crynhoi'r costau unigol a pharhaus amcangyfrifedig i'r trwyddedeion AM.

---

[32] Mae dwy o'r trwyddedau hyn yn cael eu dal gan yr un trwyddedai ac yn cwmpasu'r un ardal ddaearyddol, ac rydym o'r farn y gellid rhannu'r bwletin newyddion lleol yn yr achos hwn (h.y. mae'n debygol y bydd angen 0.75 FTE ar draws y ddwy drwydded).

[33] Rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd angen hyn ar gyfer y gwasanaeth trwyddedig FM sydd ar hyn o bryd ar lai na'r gofynion gwasanaeth llawn a drafodir uchod, lle mae angen swm cymharol fach o adnoddau ychwanegol e.e. gellid darparu ar ei gyfer drwy ymestyn y defnydd o adnoddau mewnol neu lawrydd presennol.

[34] Ar sail asiantaeth recriwtio sydd fel arfer yn codi ffi o 20-30% o'r cyflog, gweler e.e. The cost of hiring employees, Indeed.com

**Ffigur A2.2: Golwg dros dro ar y costau sefydlu a'r costau parhaus o gynigion gwasanaeth llawn ar gyfer trwyddedeion AM**

| | | Nifer y gwasanaethau trwyddedig | Cyfwerth ag Amser Llawn ychwanegol fesul gwasanaeth trwyddedig | Cyflog cyfwerth ag amser llawn tybiedig £000 | Costau sefydlu untro £000oedd [36] | Costau parhaus y flwyddyn y flwyddyn £000oedd [37] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trwyddedeion AM sy'n darparu rhywfaint o newyddion lleol ar hyn o bryd** | Mae'r drwydded yn gwasanaethu Llundain | 3[35] | 0.75 | 41 | Amh | 38 |
| | Trwydded y tu allan i Lundain | 2 | 0.75 | 27 | Amh | 25 |
| **Trwyddedeion AM nad ydynt yn darparu newyddion ar hyn o bryd** | Mae'r drwydded yn gwasanaethu Llundain | 2 | 1 | 41 | 10.3 | 50 |
| | Trwydded y tu allan i Lundain | 1 | 1 | 27 | 6.8 | 33 |

*Ffynhonnell: Modelu Ofcom, 2025*

A1.14 Ar draws y gwasanaethau trwyddedig AM, ein barn dros dro yw y byddai'r costau parhaus fel cyfran o'r trosiant yn 2023/24 yn amrywio o 2-13%.

## Asesiad dros dro i drwyddedeion sy'n rhwym wrth y gofyniad oriau brig arfaethedig

A1.15 Pe bai'r saith gwasanaeth trwyddedig FM sydd â throsiant o lai na £50k y flwyddyn yn destun gofyniad gwasanaeth llawn newyddion lleol, gallai'r costau parhaus ychwanegol gynrychioli hyd at 100% o'r trosiant yn 2023/24. Felly, rydym wedi cynnig gofyniad

[35] Mae dwy o'r trwyddedau hyn yn cael eu dal gan yr un trwyddedai, ac rydym o'r farn y gellid rhannu'r bwletin newyddion lleol yn yr achos hwn, fel mai dim ond un set o gostau fydd yn codi ar draws y ddwy drwydded.

newyddion lleol llai yn ystod oriau brig ac rydym yn cynnig peidio â gosod gofyniad casglu'n lleol ar drwyddedeion o'r fath. Ar hyn o bryd mae gan bump o'r gwasanaethau trwyddedig hyn ofyniad newyddion lleol yn ystod oriau brig felly nid yw'r cynigion yn golygu unrhyw newid. Mae gan ddau o'r gwasanaethau trwyddedig drefniadau pwrpasol ar hyn o bryd ac, mewn egwyddor, byddai newyddion lleol yn ystod oriau brig yn golygu gofyniad newyddion uwch. Fodd bynnag, er nad yw'n ofynnol gwneud hynny, mae un o'r gwasanaethau trwyddedig hyn yn cynhyrchu bwletinau newyddion lleol yn wirfoddol sy'n uwch na'r isafswm gofynnol a chawn ar ddeall eu bod eisoes yn bodloni'r gofyniad oriau brig. Ein safbwynt dros dro yw na fydd unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'n cynigion i'r trwyddedai hwn.

A1.16 Nid yw gweddill y gwasanaethau trwyddedig yn darparu unrhyw fwletinau newyddion lleol ar hyn o bryd, ac o'r herwydd rydym yn credu y byddai'n arwain at gost untro o ✂, wedi'i ddilyn gan gost barhaus o ✂ y flwyddyn pe bai'n ceisio defnyddio adnoddau newyddiadurol proffesiynol. Fodd bynnag, mae'n cael ei redeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr felly mae'n bosibl y bydd yn gallu defnyddio adnoddau gwirfoddol ychwanegol i gasglu newyddion lleol i gyflawni'r gofynion[36], ac os felly ni fyddent yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol. Nodwn fod nifer o orsafoedd radio bach eraill sydd mewn sefyllfa debyg yn defnyddio gwirfoddolwyr i gasglu newyddion lleol. Rydym yn cydnabod, mewn egwyddor, y gallai'r trwyddedai hwn wynebu costau ychwanegol i ddefnyddio adnoddau i ddarparu newyddion lleol a byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar y trwyddedai.

A1.17 Fel y trafodwyd yn adran 3, rydym yn croesawu sylwadau rhanddeiliaid ar oblygiadau cost ein cynigion. Ar ben hynny, os byddwn yn penderfynu gweithredu ein cynigion ar ôl ymgynghori, bydd trwyddedeion yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar amodau eu trwydded arfaethedig unigol yn unol ag adran 86(5) o Ddeddf Darlledu 1990.

## Amcangyfrif dros dro o gyfanswm effeithiau cost newyddion lleol

A1.18 Mae ein hasesiad dros dro yn darparu amcangyfrifon o gostau cynyddrannol i fodloni gofyniad oriau brig neu wasanaeth llawn (fel y bo'n briodol) o'i gymharu â sefyllfa gychwynnol trwyddedai o ran lefelau presennol y ddarpariaeth newyddion ar draws gwasanaethau trwyddedig gwahanol (a allai fod yn wahanol i'r hyn y mae'n ofynnol iddynt ei ddarparu ar hyn o bryd). Ar draws y 41 o wasanaethau trwyddedig AM a FM a aseswyd uchod gyda'i gilydd, rydym yn amcangyfrif y byddai'r costau ychwanegol yn effeithio'n ymarferol ar 21 o'r 41 trwydded. Gyda'i gilydd, mae'r costau hyn yn gost untro oddeutu £32,000, a hyd at £326,000 y flwyddyn yn barhaus (ar gyfartaledd £1,500 ac £16,000 fesul gwasanaeth trwyddedig yr effeithir arno). Yn ymarferol, mae ein gwaith modelu'n awgrymu y byddai'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn fwyaf dwys yn gymharol ar ychydig o drwyddedeion (deuddeg gwasanaeth trwyddedig) a thrwyddedeion AM yn bennaf.

[36] Rydym yn cynnig na fyddai'n rhaid i'r trwyddedeion sydd â throsiant o dan £50k ddarlledu newyddion sydd wedi'i gasglu'n lleol, felly nid oes angen iddynt ddefnyddio pobl sy'n casglu newyddion yn ystod cyflogaeth neu fusnes.

## Asesiad cost gofyniad arfaethedig casglu newyddion yn lleol

A1.19 Yn Adran 3, rydym yn cynnig y dylai'r rhan fwyaf o drwyddedeion fod yn rhwym wrth ofyniad y dylai eu darllediadau newyddion lleol gynnwys newyddion a gasglwyd yn 'ardal berthnasol' y gwasanaeth trwyddedig hwnnw (h.y., yn ardal ddarpariaeth gwasanaeth amlblecs radio lleol sydd i raddau helaeth yn cynnwys ardal ddarpariaeth y gwasanaeth darlledu sain lleol (neu, lle nad oes amlblecs o'r fath, yn ardal ddarpariaeth y gwasanaeth trwyddedig)).[37] Er mwyn bodloni'r gofynion a osodir gan y Ddeddf, rydym wedi nodi ein barn y byddai hyn yn golygu bod newyddiadurwr yn bresennol yn gorfforol yn yr ardal berthnasol i gasglu newyddion 'sy'n cael ei gasglu'n lleol'. Rydym yn cynnig rhoi hyblygrwydd i drwyddedeion benderfynu pa straeon newyddion lleol y dylid eu casglu'n lleol, gan ddilyn ein canllawiau a nodi sut maent yn cyflawni'r gofyniad casglu'n lleol yn eu Ffeil Gyhoeddus.

A1.20 Oherwydd yr hyblygrwydd a ddarperir gan yr amodau trwydded rydym yn eu cynnig, mae'n anodd amcangyfrif cost gyffredinol gofynion casglu'n lleol yn bendant oherwydd bydd y costau'n cael eu pennu gan benderfyniadau pob trwyddedai ar y dull gweithredu sy'n briodol i'w wasanaeth. Fodd bynnag, rydym yn nodi na ddylai'r rhan fwyaf o drwyddedeion wynebu costau ychwanegol sylweddol, gan fod ganddynt eisoes drefniadau mewn lle i gasglu newyddion yn yr ardal leol gan ddefnyddio adnoddau newyddiadurwyr mewnol, llawrydd neu drydydd parti.

A1.21 Serch hynny, rydym yn cydnabod y bydd rhai trwyddedeion yn wynebu costau ychwanegol er mwyn cydymffurfio â'r gofynion arfaethedig oherwydd efallai y bydd angen iddynt gyflogi newyddiadurwyr newydd; cynyddu oriau eu newyddiadurwyr presennol; neu wneud trefniadau eraill (h.y. gyda darparwyr newyddion lleol trydydd parti).[38]

A1.22 Os bydd trwyddedai'n ceisio bodloni gofynion casglu'n lleol drwy ddefnyddio newyddiadurwyr ychwanegol (neu gynyddu eu hamser), gallai cost yr adnodd ychwanegol hwn amrywio'n sylweddol fesul trwyddedai. Bydd yn dibynnu, er enghraifft, ar leoliad y gwasanaeth radio trwyddedig (gyda chyfraddau cyflog tebygol yn amrywio mewn rhannau o'r wlad); a faint o oriau ychwanegol o amser newyddiadurwyr sydd eu hangen i fodloni'r gofynion yn ddigonol. Yn nhabl x isod, rydym yn amlinellu'r costau posibl i wasanaethau trwyddedig yn sgil cyflogi newyddiadurwr ychwanegol ar sail cyfwerth ag amser llawn (FTE).

[37] Nid ydym yn cynnig gosod gofyniad i gasglu newyddion yn lleol ar gyfer y saith gwasanaeth trwyddedig sydd â throsiant isel iawn.

[38] Nid ydym wedi cyflwyno costau trefniadau amgen, gan y byddai trwyddedeion yn annhebygol o roi'r swyddogaethau hynny ar gontract allanol pe bai'r gost yn fwy na chyfanswm costau cyflog a chostau heb fod yn gyflog cyflogi newyddiadurwr yn fewnol.

**Tabl A2.3: Costau Cyflogi Newyddiadurwyr Ychwanegol**[39]

| Adnoddau newyddiadurwyr ychwanegol sydd eu hangen fesul wythnos – (FTE) | Costau blynyddol (y tu allan i Lundain) £000oedd | Costau blynyddol (yn Llundain) £000oedd |
|---|---|---|
| **0.1 (3.7 awr)** | 3.3 | 5 |
| **0.25 (9.25 awr)** | 8.2 | 12.5 |
| **0.5 (27.75 awr)** | 16.5 | 25 |
| **1 (37 awr)** | 32.9 | 50 |

*Ffynhonnell: Ofcom 2025*

A1.23 Gallai gwasanaeth trwyddedig nad oes ganddo unrhyw drefniadau ar waith ar hyn o bryd wynebu tua £3.3k-£50k o gostau mewn egwyddor (yn dibynnu ar y lleoliad). Fodd bynnag, ni fydd y rhan fwyaf o wasanaethau trwyddedig yn rhan uchaf yr ystod hon, gan fod hyn yn cynrychioli trwyddedai sy'n cyflogi newyddiadurwr amser llawn yn unig i gasglu newyddion lleol ac yn seiliedig ar gyflogau Llundain. Nodwn o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid fod rhai gorsafoedd radio annibynnol sy'n casglu newyddion yn lleol yn cyflogi newyddiadurwyr mewnol i wneud hynny, ond nad ydynt yn defnyddio eu holl amser newyddiadurwyr i gasglu newyddion lleol yn unig.

A1.24 Ac ystyried yr hyblygrwydd rydym yn cynnig ei roi i drwyddedeion o ran cyfran y newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol maen nhw'n ei ddarlledu, ni allwn ddarparu amcangyfrif mwy manwl ynghylch lle gallai trwyddedeion unigol ffitio yn yr ystod hon. Bydd faint o amser cyfwerth ag amser llawn y bydd newyddiadurwr yn ei dreulio'n casglu newyddion lleol hefyd yn amrywio yn ôl gwasanaeth trwyddedig, gan ddibynnu ar wahanol ffactorau gan gynnwys, er enghraifft, maint yr ardal dan sylw; a nifer y straeon a gesglir yn lleol mewn bwletinau.

A1.25 Ar ben hynny, bydd unrhyw gostau ychwanegol y byddai trwyddedai'n eu hwynebu fesul trwydded yn dibynnu ar a oes cyfleoedd i'r trwyddedai hwnnw rannu a defnyddio adnoddau a allai fod ar gael ar draws ei sefydliad. Er enghraifft, efallai y bydd nifer o drwyddedeion yn gallu rhannu darllediad newyddion lleol (gan gynnwys straeon newyddion sy'n cael eu casglu'n lleol) ar draws nifer o ardaloedd trwydded perthnasol. Mae rhannu bwletinau lleol fel hyn yn golygu y gallai fod yn ymarferol i grwpiau radio gyflogi adnoddau newyddiadurwyr ychwanegol a rhannu'r adnodd hwnnw i gwmpasu nifer o ardaloedd.[40] Pan fydd rhannu adnoddau fel hyn yn ymarferol, dylai effaith y costau ychwanegol fesul trwydded fod yn is.

[39] Mae'r costau i wasanaethau trwyddedig yn deillio o gyflogau cyfartalog yr awr newyddiadurwyr radio (mae'r tybiaethau cyflog hyn yn cyd-fynd â'r rhai a ddefnyddir uchod i fodelu costau gofynion newyddion lleol yn yr Atodiad hwn). Mae hyn yn cynnwys costau cyflog uniongyrchol a chostau ychwanegol nad ydynt yn ymwneud â chyflogau i gyflogwyr.

[40] Efallai y bydd gan newyddiadurwr amser llawn hyblygrwydd hefyd i gwmpasu ardaloedd sy'n cael eu cynnwys gan wahanol fwletinau lleol yn dibynnu ar eu lleoliad penodol, eu cwmpas daearyddol a'r amser teithio.

A1.26 Ni fyddai'n rhaid i bob trwyddedai hefyd fodloni'r gofynion casglu'n lleol drwy gyflogi newyddiadurwr. Gallai rhai trwyddedeion hefyd ofyn am drefniadau eraill os ydynt o'r farn bod hynny'n briodol. Er enghraifft, cawn ar ddeall bod rhai trwyddedeion yn rhoi eu gwaith casglu newyddion lleol ar gontract allanol i ddarparwyr newyddion trydydd parti. Felly efallai y byddent ond yn gwneud hynny petai'n rhatach na chyflogi newyddiadurwyr yn fwy uniongyrchol. Er hynny, rydym yn cydnabod y byddai ffactorau eraill fel ystyriaethau golygyddol hefyd yn berthnasol o ran a ddylid defnyddio dewisiadau eraill yn lle cyflogi newyddiadurwr mewnol.

## Asesiad cost gofyniad arfaethedig casglu gwybodaeth leol

A1.27 Yn Adran 3, rydym yn cynnig y dylid darlledu gwybodaeth leol yn rheolaidd drwy gydol y dydd, ond nid ydym yn cynnig rhagnodi faint o wybodaeth leol y dylid ei darlledu, pa mor aml y dylid ei darlledu, na pha fathau o wybodaeth y dylid ei darlledu. Rydym yn cynnig y dylai trwyddedeion bennu sut maent yn bwriadu cyflawni eu gofynion gwybodaeth leol yn eu Ffeil Gyhoeddus.

A1.28 Yn Adran 3 rydym yn trafod bod bron i bob gorsaf radio yn darparu rhyw fath o wybodaeth leol yn rheolaidd fel diweddariadau am y tywydd a'r traffig, fel rhan o'u gwasanaeth.[41] O'r herwydd, ein barn dros dro yw na ddylai llawer o drwyddedeion gael unrhyw effaith gyffredinol ar gostau sy'n gysylltiedig â'r gofynion newydd arfaethedig ar sail eu lefelau darpariaeth presennol.

A1.29 I'r trwyddedeion hynny y gallai fod angen iddynt ddarlledu gwybodaeth leol am y tro cyntaf, neu gynyddu eu darpariaeth gwybodaeth leol, rydym yn nodi ymhellach bod gwybodaeth o'r fath ar gael yn rhwydd ac ar gael am ddim drwy wefannau. Felly, ni fyddem yn disgwyl costau ychwanegol sylweddol i'r trwyddedeion pe bai'n rhaid iddynt gynyddu faint o wybodaeth leol maent yn ei darparu a/neu pa mor aml mae'n cael ei darlledu.

A1.30 Mae rhai sefydliadau masnachol sydd hefyd yn darparu gwybodaeth fel diweddariadau am y tywydd a'r traffig i orsafoedd radio. Ar sail yr ymatebion i'n cais am wybodaeth i drwyddedeion, cawn ar ddeall y gallai fod rhai costau'n gysylltiedig â diweddariadau o'r fath. Mae gwasanaethau o'r fath yn aml yn mewnosod eu hysbysebion eu hunain o amgylch diweddariadau tywydd neu draffig maen nhw'n eu darparu. Fodd bynnag, ni fyddem yn disgwyl i'r costau hynny fod yn sylweddol o ystyried bod yr hysbysebu'n aml am gyfnod byr, wrth ymyl y diweddariad gwybodaeth.

## Asesiad cost gofyniad arfaethedig y Ffeil Gyhoeddus

A1.31 Fel rhan o'n cynigion ar gyfer y gofynion newyddion lleol, casglu'n lleol a gwybodaeth leol, rydym yn cynnig mynnu bod trwyddedeion yn dryloyw yn eu Ffeil Gyhoeddus ynghylch sut maent yn bodloni'r gofynion ar gyfer pob gwasanaeth trwyddedig. Gan fod gan bob trwyddedai Ffeil Gyhoeddus yn barod, nid ydym wedi ceisio mesur cost diweddaru'r Ffeil Gyhoeddus, gan ei bod yn annhebygol y bydd angen costau sylweddol ymlaen llaw i nodi'r dull gweithredu ar gyfer newyddion lleol, casglu'n lleol na gwybodaeth leol. Ar ben hynny, nid ydym yn rhagweld costau parhaus sylweddol, oherwydd efallai mai dim ond o bryd i'w

[41] O'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwelsom fod pawb ond un wedi nodi bod eu bod yn darparu rhyw fath o wybodaeth leol.

gilydd y bydd angen i drwyddedeion adolygu eu Ffeil Gyhoeddus a phan fydd newidiadau yn y ffordd maent yn bodloni gofynion newyddion a gwybodaeth.

# A2. Asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb a’r Gymraeg

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

A2.1 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (‘Deddf 2010’) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i’r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy’n gysylltiedig â’r nodweddion gwarchodedig canlynol: ailbennu rhywedd; anabledd; beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd neu gred; hil; oed; priodas a phartneriaeth sifil; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i’r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A2.2 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (‘Deddf 1998’) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy’n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i’r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym ni’n cydymffurfio â’n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

A2.3 I’n helpu i gydymffurfio â’n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o’r fath neu’n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

A2.4 Wrth ystyried effeithiau cydraddoldeb, nod ein hasesiad yw ystyried effeithiau yn fwy eang na phobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb, ac ystyried yr effeithiau posibl ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein canllawiau ar asesu effaith).

A2.5 Yn benodol, mae adran 3(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo’n berthnasol dan yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol:

c) Pa mor agored i niwed yw plant a phobl eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ein barn ni, yn golygu bod angen gwarchodaeth arbennig arnynt;
d) Anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel; a hefyd
e) Gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o’r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy’n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

A2.6 Rydym ni’n edrych ar yr effaith y mae ein polisi’n debygol o’i chael ar bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae hyn hefyd yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, waeth beth fo’u cefndir a’u hunaniaeth.

A2.7 Rydym wedi ystyried effaith bosibl debygol ein cynigion a drwyddi draw, rydym o’r farn ei bod yn annhebygol y bydd ein cynigion yn cael effaith niweidiol ar bobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig, neu ar hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer grwpiau penodol.

Rydym o'r farn y gallai hefyd gael effaith gadarnhaol ar wrandawyr, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

A2.8 Mae'n bosibl y bydd nifer fach o orsafoedd sydd â throsiant isel iawn yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r gofynion newydd, gan gwestiynu eu hyfywedd ariannol ac o bosibl felly effeithio ar eu gallu i gynnal y gwasanaeth. Mae llawer o'r rhain wedi'u lleoli yn yr Alban sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig anghysbell ac yn cyrraedd poblogaethau ar wasgar a thros ardal eang. I gydnabod hyn, rydym wedi cynnig amod trwydded darlledu'n llai aml arall i'r rhai sydd â throsiant isel iawn (o baragraff 3.29 ymlaen).

A2.9 Rydym yn ymwybodol bod rhai gorsafoedd nad oes angen iddynt ddarparu 'gwasanaeth llawn' newyddion ar eu gwasanaethau trwyddedig ar hyn o bryd, ond a fyddai, o dan ein cynigion, yn gorfod gwneud hynny. Mae rhai o'r gwasanaethau hyn yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, fel crefydd neu hil. Er mwyn lliniaru effaith ein cynigion, rydym wedi egluro y gall trwyddedeion gyflwyno sylwadau i Ofcom am hyn fel rhan o'r broses amrywio trwyddedau unigol. Os yw Ofcom yn fodlon y byddai'r gofynion arfaethedig yn cael effaith sylweddol ac yn creu risg sylweddol o gau unrhyw wasanaethau trwyddedig (gan gynnwys y rhai sy'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig), byddai Ofcom fel arfer yn disgwyl cymhwyso'r gofyniad is arfaethedig (h.y. amod oriau brig yn unig) i'r gwasanaethau hynny. Mae rhagor o fanylion am y cynnig hwn ar gael o baragraff 3.36 ymlaen.

A2.10 O ganlyniad i gynnydd mewn darpariaeth newyddion lleol ar draws 21 o drwyddedau, bydd cynulleidfaoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn elwa o fwy o newyddion lleol; gall hyn gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig. Rydym hefyd o'r farn bod manteision posibl i bobl yn y grwpiau oedran ac anabledd gwarchodedig, oherwydd mae'n bosibl na fydd rhai ohonynt yn gallu cael gafael ar newyddion ar-lein yn hawdd. Fel y nodwyd eisoes, credwn fod hwn yn ganlyniad cadarnhaol i wrandawyr oherwydd bod ein hymchwil wedi dangos bod pobl yn gwerthfawrogi ac yn elwa o ddarparu newyddion a gwybodaeth leol ar radio masnachol.

A2.11 Rydym yn credu bod ein cynigion yn debygol o gael effaith niwtral i raddau helaeth ar feithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau penodol o bobl. Fodd bynnag, rydym yn nodi pwysigrwydd newyddion cywir o ansawdd uchel i helpu dinasyddion i ddeall materion yn eu hardal a chymryd rhan gadarnhaol yn y broses ddemocrataidd.

# Dyletswydd y Gymraeg

A2.12 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Er mwyn rhoi hyn ar waith, mae'n rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.[42] Yn unol â hynny, rydym wedi'i ystyried:

a) Effaith bosibl ein cynigion polisi ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
b) Effaith bosibl ein cynigion polisi ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
c) Sut byddai modd llunio ein cynigion er mwyn iddo gael neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.

[42] Mae safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan

A2.13 Roedd y Ddeddf Cyfryngau yn dileu pŵer Ofcom i osod amodau trwydded i sicrhau cymeriad gwasanaeth gwasanaethau radio lleol[43], gan gynnwys gofynion sy'n ymwneud â chynnwys Cymraeg lle bo hynny'n berthnasol. Fodd bynnag, gall trwyddedeion ddewis bodloni'r amod newyddion a gwybodaeth leol arfaethedig drwy ddarlledu newyddion a gwybodaeth leol yn Gymraeg. Gallant hefyd ddewis cyhoeddi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan yr amod ffeil gyhoeddus arfaethedig yn Gymraeg. Nid ydym o'r farn bod ein cynigion yn cael unrhyw effaith niweidiol ar y Gymraeg, nac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A2.14 Byddwn yn sicrhau bod y canllawiau rydym yn eu cynhyrchu i helpu trwyddedeion i weithredu'n unol ag amodau arfaethedig y drwydded newydd ar gael yn Gymraeg. Byddwn hefyd yn sicrhau bod hyn ar gael yn rhwydd ar y rhan berthnasol o'n gwefan ac, yn olaf, wrth gyfathrebu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd, byddwn yn tynnu sylw'n glir at y ffaith bod y canllawiau ar gael yn Gymraeg. Nid ydym yn credu bod unrhyw fesurau ychwanegol y gallem eu cymryd a fyddai'n cynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

[43] Gwnaeth y Ddeddf Cyfryngau newidiadau i adran 106 o Ddeddf Darlledu 1990.

# A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 22 Medi 2025.

A3.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/public-service-broadcasting/consultation-local-news-and-information-on-analogue-commercial-radio. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A3.3 Os bydd eich ymateb ar ffurf ffeil fawr, neu os bydd yn cynnwys siartiau, tablau neu fathau eraill o ddata ategol, gofynnwn i chi ei anfon drwy e-bost i mediaactpart5@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A3.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

**Content Policy Development team**
**Ofcom**
**Riverside House**
**2A Southwark Bridge Road**
**London SE1 9HA**

A3.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

> anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu

> gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i lwytho yn syth ar YouTube (neu wefan lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A3.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A3.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A3.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A3.9 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 6. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A3.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r tîm drwy anfon neges e-bost i mediaactpart5@ofcom.org.uk

## Cyfrinachedd

A3.11 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A3.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A3.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A3.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A3.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A3.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn nodi ei gasgliad, nes ymlaen eleni.

A3.17 Os byddwn yn penderfynu gwneud y newidiadau hyn ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd Ofcom yn defnyddio ei bwerau o dan a86(5) o Ddeddf Darlledu 1990 i amrywio trwyddedau presennol, yn unol â chymal 21 pob trwydded. Fel rhan o'r broses honno, bydd trwyddedeion yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar amodau eu trwydded newydd arfaethedig unigol, fel sy'n ofynnol o dan a86(5)(b) o Ddeddf Darlledu 1990, a byddwn yn eu hystyried wrth gwblhau amodau trwydded newydd unigol y trwyddedai.

A3.18 Dilynir hyn gan gyhoeddi hysbysiad amrywio terfynol. Rydym yn cydnabod efallai y bydd angen amser ar drwyddedeion i roi'r newidiadau angenrheidiol ar waith er mwyn cydymffurfio â'r gofynion newydd. Felly, rydym yn cynnig nad yw'r amrywiadau i'r trwyddedau yn dod i rym ar unwaith a'u bod, yn hytrach, yn dod i rym chwe mis ar ôl dyddiad yr hysbysiad amrywio terfynol. Rydym yn croesawu adborth ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu.

A3.19 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

# Prosesau ymgynghori Ofcom

A3.20 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 4.

A3.21 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A3.22 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

**Corporation Secretary**
**Ofcom**
**Riverside House**
**2a Southwark Bridge Road**
**London SE1 9HA**
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

1. Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

2. Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
3. Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
4. Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosibl. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.
5. Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydym ni'n cynnal ein hymgyngoriadau.
6. Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

7. Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A6. Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Dywedwch wrthym sut y daethoch ar draws yr ymgynghoriad hwn.**

☐ E-bost gan Ofcom

☐ Wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol

☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom

☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall

☐ Wedi clywed amdano ar y teledu neu'r radio

☐ Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn

☐ Wedi clywed amdano mewn digwyddiad

☐ Rhywun wedi dweud wrthyf amdano neu wedi'i rannu â mi

☐ Arall (rhowch fanylion)

## Cwestiynau

**Cwestiwn 1:**

Ydych chi'n cytuno â'r amod trwydded rydym yn ei gynnig ar ddarparu newyddion lleol? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 2:**

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad dros dro o'r effaith ar orsafoedd radio, fel y nodir uchod ac yn Atodiad 1? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 3:**

A oes unrhyw effeithiau eraill nad ydym wedi'u nodi? Rhowch fanylion yr effeithiau hyn a thystiolaeth i'w cefnogi os oes tystiolaeth ar gael.

**Cwestiwn 4:**

A oes unrhyw opsiynau eraill i weithredu gofynion y Ddeddf nad ydym wedi'u nodi ac a fyddai, yn eich barn chi, yn fwy priodol a chymesur? Rhowch fanylion unrhyw opsiynau eraill o'r fath, a'r rhesymeg drostynt, fel rhan o'ch ateb.

**Cwestiwn 5:**

Ydych chi'n cytuno â'r amod trwydded rydym yn ei gynnig i fynnu bod newyddion lleol yn cynnwys newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 6:**

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad dros dro o'r effaith ar orsafoedd radio? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 7:**

A oes unrhyw effeithiau eraill nad ydym wedi'u nodi? Rhowch fanylion yr effeithiau hyn.

**Cwestiwn 8:**

Ydych chi’n cytuno â’n dull gweithredu arfaethedig i drwyddedeion sydd â throsiant isel iawn (h.y., dan £50,000)? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 9:**

Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig i gymhwyso'r amod oriau brig yn unig i wasanaethau trwyddedig eraill? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 10:**

Ydych chi’n cytuno â’r amod trwydded rydym yn ei gynnig bod angen darlledu gwybodaeth leol?

**Cwestiwn 11:**

Ydych chi’n cytuno â’n hasesiad dros dro o’r effaith ar orsafoedd radio? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 12:**

A oes unrhyw effeithiau eraill nad ydym wedi’u nodi? Rhowch fanylion yr effeithiau hyn.

**Cwestiwn 13:**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein cynnig i ddiwygio amod cyfredol y drwydded sy’n ymwneud â’r Ffeil Gyhoeddus? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 14:**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein canllawiau arfaethedig ar sut gall trwyddedeion weithredu’n unol â’r gofynion arfaethedig? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 15:**

Ydych chi’n cytuno â’n hamserlen arfaethedig i weithredu’r gofynion newydd? Rhowch resymau dros eich ateb.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw’r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae’r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a’n rhesymeg wedi’u nodi yn y ddogfen lawn.